Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 10 MEHEFIN 2026 am 2:00 y. p. | WEDNESDAY 10 JUNE 2026 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL AR ZOOM | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY ON ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb ***(Is-Gadeirydd/Vice-Chair***), John Ifan Jones, Jackie Lewis, *Sedd Wag/Vacant Seat*, Alwen Watkin, Sonia Williams, Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Rhys Thomas

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans ***(Cadeirydd/Chair)***, R. Llewelyn Jones

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

Celfyn Furlong (Reform)

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church); Parch./Rev. Llewelyn Moules-Jones (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales); Kathryn Seeney (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector); Christina Williams (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 18 Mawrth 2026
- 12 Mai 2026 (ethol Cadaeirydd ac Is-Gadeirydd)

**3** **MONITRO PERFFORMIAD:CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2025/26** (Tudalennau 13 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio.

**4** **DOGFEN GYFLAWNI BLYNYDDOL 2026/27** (Tudalennau 33 - 50)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio.

**5** **AROLYGIAETH GOFAL CYMRU:LLYTHYR GWIRIO SICRWYDD AWDURDOD LLEOL - GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD AC AROLWG O WASANAETHAU MAETHU** (Tudalennau 51 - 60)

Cyflwyno adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**6** **BLAEN RAGLEN WAITH 2026/27** (Tudalennau 61 - 70)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL
## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ar 18 Mawrth 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jeff Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Celfyn Furlong, John Ifan Jones, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Keith Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Arfon Wyn<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol), Alun Roberts (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 6)<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth AD, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer (EHW) (ar gyfer eitemau 4 a 5)<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Rheolwr Perfformiad a Phrosiectau Strategol (GP) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Polisi a'r Gymraeg (FFO) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Craffu a Gwasanaethau Pwyllgorau (AH)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd (Gweddarlledu) (CH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Alwen Watkin, Neville Evans (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion), Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Kathryn Seeney (Aelod Cyfetholedig - Rhiant Lywodraethwr Sector Ysgolion Cynradd), Christina Williams (Aelod Cyfetholedig - Rhiant Lywodraethwr Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY), Lynn Ball (Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio |

DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'r Cynghorydd Celfyn Furlong, oedd wedi cael ei ethol i'r Cyngor yn ddiweddar, ac sy'n aelod newydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd yr ymddiheuriadau a'u nodi.

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB 2025

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn ymgorffori'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2025, i'r Pwyllgor ei ystyried a'i adolygu.

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo adroddiad yn rhinwedd ei swydd fel pencampwr cydraddoldeb ac amrywiaeth, a nododd fod yr adroddiad yn amlinellu sut y cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau statudol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, yn ystod 2024/25. Mae'r adroddiad yn cynnwys trosolwg o gynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2024-2028, mae'n amlygu'r prif gyflawniadau ac mae'n cyflwyno data cydraddoldeb mewn perthynas â'r gweithlu ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'n manylu hefyd ar y camau a gymerwyd i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Cyngor yn bwriadu adeiladu ar y cynnydd yn 2024/25 trwy ganolbwyntio ar bum blaenoriaeth - cryfhau'r defnydd o ddata cydraddoldeb, canolbwyntio mwy ar ganlyniadau mesuradwy, datblygu cydweithio ymhellach â chydweithwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol, cwblhau trefniadau monitro ac adrodd a pharatoi ar gyfer y ddyletswydd statudol newydd i asesu effaith iechyd a ddaw i rym ym mis Ebrill 2027. Mae'r adroddiad yn dangos fod y Cyngor, at ei gilydd, yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol o ran hyrwyddo cydraddoldeb, gwella cynhwysiant a gwreiddio arferion teg o fewn ei wasanaethau. Mae'n ailddatgan ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwasanaeth teg, hygyrch a chynhwysol a meithrin diwylliant cadarnhaol o gydraddoldeb, o fewn y sefydliad ac yn ei ymwneud â'r cyhoedd.

Wrth adolygu'r adroddiad, trafododd y Pwyllgor y materion canlynol –

- Pam fod y Cyngor yn cyflogi mwy o ferched na dynion.

  Hysbyswyd y pwyllgor fod merched, am resymau cymdeithasol a hirsefydlog, yn parhau i gyflawni rolau gofalu di-dâl ar raddfa llawer uwch na dynion, ac mae hynny yn ei dro yn golygu fod swyddi rhan amser, hyblyg neu sefydlog - y mathau o swyddi sy'n nodweddiadol mewn llywodraeth leol - yn fwy deniadol. Mae hyn yn golygu fod y Cyngor yn naturiol yn denu cyfran uwch o geisiadau gan ferched. Mae gweithlu'r Cyngor felly'n adlewyrchu tueddiadau ehangach o fewn y sector yng Nghymru. Er bod swyddogion yn cydnabod bod y patrwm hwn yn ganlyniad i ffactorau cymdeithasol hirsefydlog, bu iddynt nodi bod y Cyngor yn cydnabod pa mor bwysig yw ymdrechion parhaus i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd.

- Gofynnodd aelodau a yw mynd i'r afael â'r duedd hon yn rhan o'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud ar y cyd â phartneriaid.



DRAFT

Hysbyswyd aelodau fod y berthynas â Choleg Llandrillo Menai yn arbennig o bwysig o ran hyrwyddo'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael o fewn y Cyngor, yn ogystal â'r strwythurau sydd ar waith i gefnogi pobl ifanc i ymuno â'r sefydliad a datblygu eu gyrfa. Rhannwyd esiamplau â'r pwyllgor o waith partneriaeth ehangach y Cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, gan gynnwys cydweithio â'r tîm cydlyniant cymunedol rhanbarthol. Mae'r bartneriaeth wedi caniatáu i'r Cyngor adnabod grwpiau a sefydliadu newydd i ymgysylltu â nhw, gan fanteisio ar wybodaeth a dealltwriaeth y tîm o gymunedau lleol. Roedd hyn yn gryfder nodedig yn ystod y cyfnod y cyfeiria'r adroddiad ato ac mae'n faes y bwriada'r Cyngor barhau ei ddatblygu. Gan weithio ochr yn ochr â'r tîm cydlyniant cymunedol, cynhaliodd y Cyngor nifer o ddigwyddiadau i staff gyda phartneriaid trydydd sector ac elusennau. Gan fod y tîm yn dîm rhanbarthol ac yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, roedd yn bosib i'r Cyngor fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi ychwanegol a chyflwyno partneriaid newydd, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau merched.

- Nododd aelodau y bwlch cyflog rhwng dynion a merched a gyflogir gan y Cyngor (sydd yn 8.6% ac yn is na'r ffigwr cyfartalog ar gyfer y DU) a gofynnodd am eglurhad ynglŷn â beth sy'n achosi'r bwlch a'r camau a gymerir i fynd i'r afael ag o.

  Sicrhawyd y Pwyllgor fod y Cyngor yn talu'r un cyfraddau cyflog am yr un math o waith beth bynnag yw rhyw y gweithiwr. Esboniodd yr Aelod Portffolio fod y Cyngor wedi cymryd camau i wneud y broses recriwtio yn fwy hygyrch, gan gynnwys darparu llwybrau ymgeisio digidol ac ymgysylltu mwy ag ymgeiswyr posib cyn hysbysebu swyddi. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi cyfleoedd i staff ddatblygu eu gyrfa trwy hwyluso llwybrau dyrchafu, annog ceisiadau am ddyrchafiad a darparu rhaglenni datblygu, mentora ac arweinyddiaeth. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae hyn wedi cynnwys penodi dynes yn Brif Weithredwr.

- Gofynnodd y pwyllgor i ba raddau mae'r Cyngor yn cyflogi pobl ag anableddau ac a oes mwy y gellir ei wneud i annog ceisiadau a hyrwyddo cynhwysiant.

  Hysbyswyd y pwyllgor fod cynhwysiant a chydraddoldeb, boed yn gysylltiedig â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau neu anabledd, yn ddibynnol ar greu'r amgylchedd gwaith cywir ar gyfer pob gweithiwr. Mae'r Cyngor yn gyflogwr croesawus sydd wedi ennill achrediad Lefel 2 fel Cyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd. Mae'n ystyried y camau angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i Lefel 3, sy'n ymwneud â hyrwyddo ac arwain ar gynhwysiant anabledd o fewn ardal ehangach. Er bod achrediad yn bwysig ac y byddai'n ddymunol cyflawni Lefel 3, mae'r un mor bwysig fod y Cyngor yn gallu dangos fod ei weithlu'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddo a'i fod yn hygyrch i bob rhan o'r gymdeithas.

  Awgrymodd un o'r aelodau y dylai pob hysbyseb swydd ddatgan fod ceisiadau gan bobl ag anableddau'n cael eu croesawu. Hysbyswyd y pwyllgor y byddai'r Cyngor yn parhau i feithrin diwylliant sy'n annog pobl ag anableddau i ymgeisio am swyddi ac y byddai'n archwilio pob cyfle i ddenu a chefnogi gweithwyr ag anableddau o fewn y gweithlu.

  Pwysleisiodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn cyflogi pobl ag anableddau a'i fod wedi addasu adeiladau a phrosesau er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu rolau'n effeithiol a chyfrannu'n llawn yn y gweithle. Mae nifer o weithwyr ag anableddau'n cael eu cefnogi trwy berthynas gref â'u rheolwyr a chefnogaeth ehangach y Cyngor fel cyflogwr. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu ei gytundeb cydweithio â Choleg Llandrillo Menai, ac mae hwn yn faes lle mae'n gobeithio cryfhau cydweithio er mwyn creu llwybr mwy clir i waith i bobl ifanc yn gyffredinol, ac i bobl ifanc ag anableddau'n arbennig, a'u helpu i gael mynediad at gyfleoedd o fewn y Cyngor.

- Gofynnodd aelodau a yw'n bosib rhannu swydd, ac os yw'r opsiwn hwnnw ar gael, awgrymwyd y dylid datgan hynny'n glir mewn hysbysebion swyddi.



DRAFT

Sicrhawyd y pwyllgor fod y Cyngor yn croesawu ceisiadau i weithio'n hyblyg, gan gynnwys trefniadau rhannu swydd. Bydd rheolwyr yn ystyried y ffordd orau o drefnu gwaith o fewn eu timau ac mae rhannu swydd yn un o'r dulliau sydd ar gael i helpu i greu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi bywydau pobl tu allan i'r gweithle. Pwysleisiwyd fod y Cyngor yn ceisio defnyddio pob dull addas i alluogi pobl i ddatblygu gyrfa o fewn y sefydliad, yn ogystal â chynnal cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd tu allan i'r gwaith.

- Roedd aelodau'n dymuno gwybod beth arall fyddai'n bosib ei wneud i helpu staff deimlo'n gyfforddus a hyderus i rannu data cydraddoldeb.

  Sicrhawyd y pwyllgor fod ymgyrch fwriadol, aml-haenog yn mynd rhagddo i annog staff i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys arddangos gwybodaeth mewn lleoedd amlwg, defnyddio posteri a negeseuon e-bost ac atgyfnerthu'r neges trwy strwythurau llywodraethu'r cyngor e.e. y Porth Polisi, Adnoddau Dynol a sgyrsiau datblygiad proffesiynol blynyddol gyda rheolwyr. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw rhannu negeseuon eglur a chyson. Nodwyd fod y sianel cyfathrebu mewnol yn cael ei ddefnyddio i esbonio pam fod casglu data cydraddoldeb yn bwysig - er mwyn gwella polisïau, monitro tegwch mewn prosesau a sicrhau fod gweithlu'r cyngor yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd â phartneriaid rhanbarthol ac yn rhannu syniadau ar sut i fynd i'r afael â'r her hon. Mae adeiladu ymddiriedaeth yn hanfodol, yn arbennig mewn perthynas â pham fod y Cyngor yn casglu'r wybodaeth hon, sut mae'n cael ei defnyddio, sut mae'n cael ei chadw'n ddiogel a phwy sydd â mynediad at y data.

  Mewn ymateb i gwestiynau pellach, cadarnhaodd y Pennaeth Democratiaeth fod disgwyl i'r Polisi Cydraddoldeb gael ei rannu â staff trwy'r Porth Polisi ddechrau mis Ebrill. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr hefyd y byddai data ynglŷn â nifer y merched sy'n ymgeisio am swyddi ar y lefel uchaf o fewn y Cyngor yn cael ei adolygu a'i rannu gydag aelodau tu allan i'r pwyllgor.

**Ar ôl adolygu'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2025 a derbyn sicrwydd ynglŷn â'r materion a godwyd, penderfynodd y pwyllgor nodi'r adroddiad a'i argymell i'r Aelod Portffolio er mwyn ei gyhoeddi.**

## 5. MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 3 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio, oedd yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2025/26, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae adroddiad y cerdyn sgorio yn manylu ar berfformiad y dangosyddion allweddol mewn perthynas â chyflawni gweithredoedd dydd i ddydd y Cyngor i gefnogi amcanion ehangach Cynllun y Cyngor.

Cyflwynwyd adroddiad y cerdyn sgorio gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol, a nododd fod y mwyafrif o ddangosyddion (86%) y gosodwyd targedau ar eu cyfer wedi perfformio'n dda yn ystod y chwarter, a bod eu statws yn Wyrdd neu Felyn. Mae adran 2.3 yn yr adroddiad yn manylu ar enghreifftiau nodedig o berfformiad da. Mae wyth dangosydd yn Goch neu Ambr yn erbyn eu targedau ar hyn o bryd - mae adran 2.2 yn yr adroddiad yn manylu arnynt, ynghyd â'r mesurau lliniaru cysylltiedig, ac maent yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol a Llesiant (achosion sy'n cael eu hailgyfeirio yn y Gwasanaethau Plant), Gwasanaethau Tai (ail-osod eiddo gwag a gwireddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), yr Economi (cyfanswm nifer y cwsmeriaid sydd â chontractau angori a chanran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd), Newid Hinsawdd (ailgylchu gwastraff yn benodol) ac Iechyd Cyngor Cyfan (ymateb yn brydlon i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth). Cadarnhaodd fod y Tîm Arweinyddiaeth yn monitro'r holl feysydd hyn.

Wrth adolygu'r cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer y trydydd chwarter, cododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol -

- Roedd y pwyllgor am gael gwybod beth arall fyddai'n bosib ei wneud i gynyddu canran yr ymweliadau â rhyngwyneb cyfrwng Cymraeg prif wefan y Cyngor.

  Hysbyswyd aelodau fod Fforwm y Gymraeg wedi bod yn trafod ffyrdd o sicrhau fod ffurflenni, dogfennau ac ymgynghoriadau yn haws eu deall ac yn fwy hygyrch trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Grŵp Llywio'r Gymraeg hefyd yn monitro'r dangosydd perfformiad hwn. Er y gwelwyd ychydig o welliant, bydd camau ychwanegol yn cael eu hystyried pan adolygir y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai'r Cyngor yn dymuno gweld cyfran uwch o ddefnyddwyr yn defnyddio'r rhyngwyneb cyfrwng Cymraeg, yn enwedig gan fod dwysedd y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn ymysg yr uchaf yng Nghymru. Un o'r heriau yw annog preswylwyr i deimlo'n hyderus bod safon eu Cymraeg yn ddigon da i ddefnyddio fersiwn Gymraeg y wefan.

- Mewn perthynas â Newid Hinsawdd, nododd aelodau fod perfformiad DP 02 - canran y gwastraff domestig sy'n cael ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn ystod Ch3 wedi dirywio o gymharu â pherfformiad Ch3 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd aelodau'n cydnabod fod y tywydd sych yn gynharach yn y flwyddyn yn golygu fod llai o wastraff gwyrdd wedi'i gasglu a gofynnwyd oni ddylai'r targed ar gyfer Ch3 gael ei addasu i adlewyrchu hynny. Gofynnodd aelodau hefyd a oedd y Cyngor wedi cysylltu ag awdurdodau eraill sydd wedi llwyddo i gyflawni'r targed o ailgylchu 70% o wastraff a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

  Hysbyswyd y pwyllgor fod y Cyngor yn trafod â chynghorau eraill trwy gyfrwng gwahanol fforymau a sefydliadau, gan gynnwys CLILC a'r Bwrdd Partneriaeth Lleol. Mae'r Cyngor wedi nodi fod y gyfradd ailgylchu gwastraff bwyd, sef 52kg fesul aelwyd, yn sylweddol is na chyfraddau cynghorau sy'n cyflawni'r targed o 70% ac sy'n ailgylchu oddeutu 126kg fesul aelwyd. Mae hyn yn parhau i fod yn her allweddol. Bydd y Cyngor yn dadansoddi adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn nodi gwersi, yn enwedig mewn perthynas â chynyddu cyfraddau ailgylchu gwastraff bwyd. Mae'r tîm cyfathrebu'n parhau i hyrwyddo negeseuon ynglŷn ag ailgylchu ac mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn ymgyrch ailgylchu genedlaethol - *Bydd Wych, Ailgylcha.* Awgrymwyd efallai bod angen ymgysylltu mwy uniongyrchol, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth ac addysgu preswylwyr. Efallai y dylid cyfleu'r neges bod rhaid cynyddu lefelau ailgylchu, yn cynnwys gwastraff bwyd, os yw preswylwyr yn dymuno osgoi symud i gasgliadau gwastraff bob pedair wythnos.

  Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gostyngiad mewn cyfraddau ailgylchu yn adeiladau'r Cyngor - a'i bod yn bwysig i'r Cyngor osod esiampl dda os yw'n disgwyl i breswylwyr wella eu lefelau ailgylchu - cadarnhawyd fod cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i wella perfformiad. Mae mesurau'n cynnwys gwella cyfathrebu, pencampwyr ailgylchu mewn adrannau, meincnodi gweithgareddau a monitro cynnydd yn rheolaidd.

- Gofynnodd aelodau a yw'r cyngor yn debygol o gyflawni'r targed o 51 diwrnod ar gyfer ailosod eiddo gwag o dan y dangosydd Tai, DP 03.

  Hysbyswyd yr aelodau fod y duedd yn gwella ac, ar gyfer yr unedau a broseswyd ers mis Ebrill 2026, mae eiddo yn wag am 57.8 diwrnod ar gyfartaledd. Mae tua 270 uned yn cael eu rheoli bob blwyddyn, ac mae hynny'n llwyth gwaith sylweddol. Nodwyd hefyd fod oedi weithiau cyn y gellir mynd i mewn i eiddo, pan fydd y tenant wedi marw er enghraifft. Mae capasiti'r gwasanaeth wedi cynyddu, ac mae'r Aelod Portffolio Tai yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r Tîm Eiddo gwag er mwyn monitro cynnydd.

  Wrth ymateb i bryderon bod Plas Alltran yn parhau i fod yn wag a'i fod yn dangos arwyddion o ddirywio chwe mis ar ôl ei ailddatblygu er mwyn darparu tai cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ddiweddariad byr ar y sefyllfa. Nododd fod y cyfnod atebolrwydd am ddiffygion yn parhau



DRAFT

i fod yn weithredol o dan y contract adnewyddu, ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r contractwr er mwyn unioni'r materion sydd angen sylw. Gan ei fod yn adeilad rhestredig, mae angen caniatâd gan CADW cyn y gellir cwblhau gwaith ychwanegol. Dywedodd ei fod yn disgwyl i'r gwaith ailgychwyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

- Mewn perthynas â'r dangosydd Economi, DP 07 - canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd, nododd aelodau fod cyllideb 2026/27 yn cynnwys dyraniad ychwanegol ar gyfer cynnal archwiliadau diogelwch bwyd. Gofynnodd aelodau sut fyddai'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio.

  Hysbyswyd yr aelodau y byddai'r buddsoddiad yn cryfhau capasiti a gwytnwch, gan alluogi'r gwasanaeth roi sylw i gwblhau archwiliadau hwyr, yn ogystal â chynnal y lefelau archwilio cyfredol, er mwyn sicrhau nad oes rhestr aros newydd yn datblygu. Rhoddir blaenoriaeth i fusnesau risg uchel, yn enwedig busnesau sy'n trin cynhyrchion bwyd risg uchel. Mae rheoliadau trwyddedu newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer triniaethau arbennig ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn rheoli hynny hefyd, gan olygu y bu'n rhaid ailgyfeirio staff i wneud y gwaith hwnnw. Yn ystod y cyfnod, rhoddwyd 34 trwydded ymarferydd ac mae'r tîm wedi ymateb i ddau ddigwyddiad iechyd a diogelwch. Y nod yw clirio'r archwiliadau hwyr erbyn diwedd chwarter 4.

- Gofynnodd aelodau a fyddai cynyddu capasiti yn golygu fod perfformiad y dangosyddion Tai, DP 04 a 05, sy'n gysylltiedig â gwireddu grantiau cyfleusterau i'r anabl hyd at £10k a dros £10k, yn gwella.

  Hysbyswyd aelodau na fyddai'r targedau'n cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gan fod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn wedi'i dyrannu'n llawn, gan olygu bod oedi o ran cymeradwyo grantiau newydd.

- Mewn perthynas â'r dangosydd Llesiant, DP 08 - canran yr atgyfeiriadau plant sy'n cael eu hailgyfeirio o fewn 12 mis, oedd yn Goch ar gyfer y chwarter, esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod achosion oedd wedi cael eu cau yn dilyn ymyrraeth yn gallu cael eu hail-gyfeirio am nifer o resymau. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu cynnal archwiliad manwl o'r achosion hyn a gweithio'n uniongyrchol â'r teuluoedd dan sylw er mwyn deall pa agweddau o'r ymyrraeth wreiddiol fyddai'n bosib eu gwella. Mae'r sefyllfa'n cael ei fonitro ac mae'r data ar gyfer chwarter 4 hyd yma'n dangos nad yw'r duedd yn parhau.

- Mewn perthynas â chwestiynau am yr economi - yn enwedig unedau busnes a osodwyd a chynlluniau i helpu pobl i gael gwaith - hysbyswyd y cyngor fod diweddariad ar y Porthladd Rhydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio y diwrnod cynt. Bu'r Cyngor yn llwyddiannus iawn wrth osod unedau busnes, gan berfformio'n well na'r targed, ac mae o wedi sicrhau arian Bargen Dwf BUEGC ar gyfer unedau busnes yng ngogledd yr ynys. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector, megis Môn CF, i gefnogi pobl i fynd yn ôl i weithio neu eu cynorthwyo i gychwyn busnesau newydd.

Croesawodd y pwyllgor berfformiad cyffredinol gwasanaethau'r Cyngor a mynegodd ei werthfawrogiad o waith y Gwasanaethau Tai yn arbennig, gan gydnabod eu hymdrechion parhaus i wella canlyniadau. Canmolodd aelodau'r Tîm Archwilio Bwyd hefyd, am eu cefnogaeth, cyngor ac ymatebolrwydd er gwaetha'r llwyth gwaith heriol.

**Ar ôl adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2025/26, ac ystyried yr ymatebion i'r materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol -**

- **Nodi adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2025/26, yn cynnwys y meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol. Roedd y meysydd hyn yn**

**ymwneud â Gofal Cymdeithasol a Llesiant (achosion plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn cyfnod o 12 mis); Tai (ail-osod eiddo gwag a gwireddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), yr Economi (nifer y contractau angori blynyddol ac archwilio busnesau risg uchel i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd), Newid Hinsawdd (ailgylchu gwastraff domestig) ac Iechyd y Cyngor Cyfan (ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn unol â'r amserlen).**

- **Argymell adroddiad y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru sydd wedi'u cynnwys ynddo i'r Pwyllgor Gwaith.**

**6. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2026-2056**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai, yn ymgorffori Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2026- 2056, i'r pwyllgor ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol, a nododd fod Cynllun Busnes y CRT yn amlinellu strategaeth tymor hir y Cyngor ar gyfer cynnal, gwella ac ehangu ei stoc o dai cyngor, yn ogystal â sicrhau fod y cyfrif Refeniw Tai yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol. Mae angen y cynllun er mwyn sicrhau Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru sydd werth tua £2.7m yn 2026/27. Trwy'r CRT, mae'r Cyngor yn rheoli ac yn berchen 4,095 eiddo a 581 garej ledled yr Ynys. Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd twf o dros 25% yn y stoc dai, i dros 5,000 eiddo, er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol am dai cymdeithasol, gyda dros 950 o bobl ar y rhestr aros ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys rhaglen gyfalaf gwerth £16m ar gyfer 2026/27 sydd yn cynnwys gwaith SATC, cynnal a chadw, addasiadau a mesurau effeithlonrwydd ynni, ynghyd â £15.5m ar gyfer datblygiadau newydd, gan gynnwys Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthaethwy.

Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai y pwysau sy'n gysylltiedig â chyflawni SATC 2023, datgarboneiddio tai presennol y Cyngor a chwrdd â'r galw lleol, yn ogystal â chadw rhenti ar lefel fforddiadwy. Er bod Cynllun Busnes y CRT yn parhau i fod yn hyfyw, nododd fod rheolaeth ofalus yn hanfodol o ystyried y bwriad i fenthyca £57m dros gyfnod y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd hyd at 2030/31.

Wrth graffu ar Gynllun Busnes y CRT, cododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol -

- Ceisiodd y pwyllgor sicrwydd na fyddai partneriaeth y Cyngor â chymdeithasau tai wrth ddatblygu tai cymdeithasol newydd yn arwain at or-ddatblygu a allai danseilio cymeriad a chydbwysedd cymunedau a phentrefi.

  Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cyngor yn rheoli ei stoc dai ei hun a bod partneriaid yn y sector cymdeithasau tai yn gosod tai gan ddefnyddio rhestr dai y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r angen am dai lleol ac mae'n darparu llinell sylfaen ar gyfer nodi'r mathau o dai sydd eu hangen, ac ymhle. Pan fydd cyfle i ddatblygu tai yn codi, bydd y Cyngor yn ystyried p'un a yw'n diwallu angen a nodwyd. Mae'n ystyried gwybodaeth leol hefyd, gan gynnwys data o'r rhestr dai sy'n dangos faint o unigolion sydd angen tŷ, y math o lety sydd ei angen arnynt a'r lleoliadau sydd orau ganddynt.

- Gofynnodd y pwyllgor a yw'r Gwasanaethau Tai yn parhau i wynebu her o ran cael mynediad at eiddo er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol a/neu waith gwella er mwyn cyflawni targedau.

  Hysbysodd y pwyllgor fod hawl gan denantiaid i ddewis ac mae'r Cyngor, fel landlord, yn parchu dymuniadau tenantiaid sy'n gwrthod gwelliannau oherwydd eu bod yn fodlon â'u cartrefi fel ag y maent. O dan yr amgylchiadau hynny, ni all y gwasanaeth ond wneud y gwelliannau y mae'n dymuno eu gwneud pan fydd yr eiddo'n dod yn wag ac yn cael ei

ailosod. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal gwiriadau blynyddol mandadol, megis gwasanaethu boeleri. Os yw tenant yn gwrthod mynediad, gall y Cyngor ddefnyddio pwerau cyfreithiol i fynd i mewn i'r eiddo er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau statudol.

- Holodd aelodau ynglŷn â fforddiadwyedd rhenti a'r cymorth sydd ar gael i denantiaid sy'n wynebu trafferthion ariannol.

  Hysbyswyd yr aelodau fod Tîm Cynhwysiant Ariannol y Gwasanaethau Tai yn helpu tenantiaid sy'n wynebu caledi ariannol a'u bod yn gallu eu cyfeirio i dderbyn cymorth ychwanegol. Mae Canolfan J. E. O'Toole hefyd yn cynnig cyngor arbenigol ac mae ar gael i holl drigolion Ynys Môn. Mae trefniadau tebyg ar waith o fewn y cymdeithasau tai. Mae'r Cyngor yn defnyddio methodoleg Rhent Byw Sefydliad Joseph Rowntree i asesu pa mor fforddiadwy yw rhenti ar gyfer ei denantiaid ac mae hyn yn cadarnhau fod rhenti presennol yn fforddiadwy. Mae tua 74% o renti'n cael eu casglu drwy'r system fudd-daliadau, naill ai'n llawn neu'n rhannol. Mae incwm rhent yn hanfodol i'r CRT gan ei fod yn darparu'r arian craidd sydd ei angen i gynnal, rheoli a buddsoddi yn stoc dai'r Cyngor.

- Holodd y pwyllgor am wella tai hŷn o fewn y stoc dai, yn enwedig trosi eiddo sy'n cael ei wresogi ag olew i fod yn gartrefi mwy ynni effeithlon.

Hysbyswyd aelodau fod arolwg o gyflwr y stoc dai wedi'i gwblhau dwy i dair blynedd yn ôl ac mae ei ganfyddiadau yn cael eu defnyddio'n awr fel sylfaen i adnabod gwaith cynnal a chadw a gwelliannau sydd eu hangen, gan gynnwys uwchraddio ceginau, ystafelloedd ymolchi a ffenestri, yn unol ag oes y cydrannau hynny. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu llwybrau ynni a dargedwyd sy'n nodi beth sydd ei angen ar bob eiddo er mwyn cyflawni SAP 75 - sef y weithdrefn asesu safonol a ddefnyddir i fesur perfformiad ynni y cartref - a nodi faint o dai sy'n annhebygol o gyrraedd y lefel hon. Er bod y Cynllun Busnes yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i gynnal a gwella ei stoc dai, nid yw'n cynnwys costau llawn ar gyfer datgarboneiddio eto, gan fod ansicrwydd yn parhau mewn perthynas â'r costau hyn. Er hynny, mae'r Cyngor ar y blaen i nifer o landlordiaid eraill yn y maes hwn. Mae gan y Cyngor dros 4,000 o gartrefi ac mae 209 yn parhau i ddibynnu ar foeleri olew, gan olygu y bydd angen sylw penodol arnynt i'w trosi i systemau mwy ynni effeithlon.

- Holodd aelodau ynglŷn â boddhad tenantiaid a'r dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu â thenantiaid.

Fe'u hysbyswyd fod rhaid i'r Cyngor gynnal arolwg STAR (arolwg boddhad tenantiaid) bob dwy flynedd er mwyn asesu barn tenantiaid am eu cartrefi a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor fel landlord. Mae'r canlyniadau'n cael eu casglu ar lefel genedlaethol a'u meincnodi yn erbyn landlordiaid cymdeithasol eraill. Mae perfformiad y Cyngor yn gyson yn y chwartel uchaf. Ymatebodd dros 1,000 o denantiaid i'r arolwg diweddaraf, gyda 84% yn datgan eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol, roedd 83% yn fodlon â'u cartrefi, roedd 81% yn teimlo bod eu rhent yn cynnig gwerth am arian ac roedd 88% yn fodlon â diogelwch eu cartrefi. Mae'r Cyngor hefyd yn ymgysylltu â thenantiaid trwy ei dîm cyfranogiad tenantiaid, fforwm tenantiaid, a defnyddir bws allgymorth er mwyn ymweld â chymunedau a chasglu adborth.

**Ar ôl adolygu'r dogfennau a derbyn sicrwydd ynglŷn â'r materion a godwyd, penderfynodd y pwyllgor argymell Cynllun Busnes y Cyfrif Busnes Tai ar gyfer 2026-2056 i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn ei gymeradwyo.**

## 7. BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27.

DRAFT

Mewn ymateb i gais penodol, a chyda chaniatâd y Cadeirydd gan nad oedd yr eitemau hynny ar y rhaglen, cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar brosiect Porth Caergybi, sydd â'r nod o ehangu Porthladd Caergybi ac sydd yn rhan o Fargen Dwf Gogledd Cymru. Amlinellodd hefyd y sefyllfa mewn perthynas ag ailddatblygu hen safle Alwminiwm Môn a chyflwynodd wybodaeth am y gwaith sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â darparu cyfleusterau parcio ar gyfer lorïau sy'n teithio i Iwerddon drwy Borthladd Caergybi.

**Penderfynwyd cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2026/27.**

**Cynghorydd Jeff Evans**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Geraint Bebb, Celfyn Furlong, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Keith Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Watkin, Sonia Williams. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Jeff Evans, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Arfon Wyn |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Jeff Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Geraint Bebb yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

DRAFT

**Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 10/06/2026 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch4 2025/26 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cyng. Robin W Williams | Dirprwy Arweinydd, Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Huw Ynyr<br><br>Alwyn Williams | Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio<br><br>Dadansoddwr Perfformiad a Busnes Corfforaethol |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor, yn unol â'i Gylch Gorchwyl, i: Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad yr holl wasanaethau, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion strategol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol, Cyllideb Blynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

| **Argymhelliad(ion):** |
|---|



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

**Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio ac yn ymchwilio iddynt er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol.**

Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

- Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis – Mae'r perfformiad yn Amber oherwydd bod ail-atgyfeiriadau yn deillio o amgylchiadau priodol ond ailadroddus; mae'r gwasanaeth wedi adolygu'r achosion hyn, wedi cyflwyno gweithdrefn fewnol ddiwygiedig i gasglu gwybodaeth llawnach, ac wedi comisiynu trosolwg annibynnol i archwilio'r cyfeiriadau a'r trothwyon, gan gryfhau sicrwydd a thryloywder.
- Tai – 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – Mae'r perfformiad yn parhau'n Goch, er bod y duedd yn gwella chwarter wrth chwarter yn dilyn cyflwyno prosesau newydd ym mis Ebrill; mae'r sefyllfa gronnol yn dal i gael ei heffeithio gan achosion hŷn o dan y system flaenorol.
- Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau Canolig (£1k-10k) – Mae'r perfformiad yn Amber oherwydd i gymeradwyaethau gael eu hatal dros dro er mwyn rheoli pwysau cyllidebol a phrinder contractwyr lleol addas, a achosodd oedi wrth ddarparu.
- Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau Mawr (>£10k) – Mae'r perfformiad yn Goch oherwydd yr un ffactorau sy'n effeithio ar DFGs canolig, gan gynnwys ôl-groniad cymeradwyaethau ac argaeledd contractwyr.
- Tai – 06) Nifer y tai Cyngor newydd a ddatblygwyd, a chyn dai Cyngor a brynwyd ac a ddygwyd yn ôl i stoc dai rhent y Cyngor – Mae'r perfformiad yn Amber oherwydd cymhlethdodau ar y safle sydd wedi oedi cwblhau unedau ychwanegol y disgwylir iddynt gael eu cyflawni yn 2026/27.
- Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol – Methwyd y targed oherwydd dirywiad parhaus yn y galw, llai o berchnogaeth cychod, a bod model angori presennol y Cyngor yn llai cystadleuol na chynigion marinas cyfagos.
- Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – Mae'r perfformiad wedi gostwng i Goch, yn bennaf oherwydd bod y tywydd sych wedi lleihau'n sylweddol faint o wastraff gwyrdd a gasglwyd, ochr yn ochr â heriau newid ymddygiad tymor hwy.
- Iechyd Cyngor Cyfan – 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser – Mae'r perfformiad yn parhau i fod yn is na'r targed oherwydd cyfyngiadau capasiti o fewn gwasanaethau; mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno system ar-lein newydd a gwella prosesau cydymffurfio.

**Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a nodwyd uchod ac a amlinellir yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Defnyddir fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad i fonitro Cynllun y Cyngor a'i amcanion strategol a llesiant.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol y dylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. **Dangosyddion sy'n Tanberfformio a Chynlluniau Gwella –** Mae wyth dangosydd perfformiad allweddol (KPI) yn tanberfformio (4 Coch a 4 Ambr).
2. **Risgiau ac Effaith –** Y risgiau a'r effaith sy'n deillio o ddangosyddion sy'n tanberfformio ar ddefnyddwyr gwasanaeth a thrigolion.
3. **Perfformiad Cymharol –** Mae 50% o'r dangosyddion cymharol wedi dirywio; fodd bynnag, o'r 24 dangosydd a waethygodd, roedd 62% naill ai'n well na'r targed neu o fewn 5% iddo, roedd 21% yn Ambr/Coch, ac nid oedd gan 17% dargedau wedi'u neilltuo.

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Hwn yw'r pedwerydd a'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn yr amcanion strategol a amlinellir yng Nghynllun y Cyngor.

Mae mwyafrif (87%) y dangosyddion sydd â thargedau ac sy'n cael eu monitro yn ystod y chwarter wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (RAG Gwyrdd neu Felyn), sy'n gadarnhaol.

Mae perfformiad blwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer pob dangosydd cymharol (48 i gyd) yn dangos bod 20 (42%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 24 (50%) wedi dirywio a 4 (8%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad 2025/26. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Parhaodd gweithgarwch hyfforddiant Cymraeg yn ystod y flwyddyn, gyda 82 o swyddogion yn derbyn hyfforddiant.
- Roedd cyfran y rhai a adawodd Flwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn 0.6%, sy'n welliant o gymharu â 1.9% yn 2024/25 a 4% yn 2023/24.
- Perfformiodd y gwasanaeth llyfrgell yn dda, gyda 97.9% o ddefnyddwyr oedolion yn graddio'r gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn, a defnyddwyr 16 oed neu iau yn rhoi sgôr gyfartalog o 9.5 allan o 10.
- Cwblhawyd atgyweiriadau ymatebol tai o fewn yr amserlenni targed (17 diwrnod yn erbyn targed o 18 diwrnod) ac roedd boddhad tenantiaid â'r atgyweiriadau yn 86%, gan barhau'n uwch na'r targed o 85%.
- Cwblhawyd pob archwiliad hylendid bwyd risg uchel, gan ragori ar y targed blynyddol yn dilyn gweithredu gwasanaeth wedi'i dargedu yn ystod Ch4.
- Roedd pob categori ffordd (A, B ac C) yn Wyrdd yn erbyn y targedau, gyda dim ond 1.5% o ffyrdd A, 1.1% o ffyrdd B a 5.4% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael.

| |
|---|
| Mae wyth dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau:<br>• Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis<br>• Tai – 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)<br>• Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau (£1k-10k)<br>• Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau gwerth dros £10k<br>• Tai – 06) Nifer y tai Cyngor newydd a ddatblygwyd, a chyn dai Cyngor a brynwyd ac a ddygwyd yn ôl i stoc dai rhent y Cyngor<br>• Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol<br>• Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio<br>• Iechyd Cyngor Cyfan – 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser |

## 7. Asesiadau effaith

7.1. A yw asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg) wedi'i gynnal?

☐Do
☒Naddo

| |
|---|
| Os naddo, eglurwch pam: Mae hwn yn adroddiad monitro perfformiad ac ni chynhaliwyd asesiad effaith ar wahân ar gyfer yr adroddiad hwn. |

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amh. |

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amh. |

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Amh. |

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Niwtral – mae’r adroddiad yn un offeryn a ddefnyddir i fonitro’r Amcan Strategol Newid Hinsawdd a chynnydd ehangach sy’n berthnasol i uchelgeisiau Carbon Sero Net y Cyngor. |

## 8 Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Nodir sefyllfa ariannol diwedd Ch4 yn yr adroddiad. |

## 9 Atodiadau

| |
|---|
| Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch4 2025/26 |

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Gwyndaf Parry, Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau<br>Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad a Busnes Corfforaethol<br>Cynllun y Cyngor 2023-2028<br>Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch3 2025/26 (fel y'i cyflwynwyd i'r pwyllgor ym mis Mawrth 2026) |

# Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2025/26

## Adroddiad Chwarter 4



**Paratowyd gan –** Gwasanaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe amcan strategol ac yn amlinellu'r prif gamau gweithredu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

**Yr Iaith Gymraeg** | **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | **Addysg** | **Tai** | **Economi** | **Newid Hinsawdd**

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

1.2 Defnyddir yr adroddiad monitro cerdyn sgorio hwn ar gyfer 2025/26 i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor sy'n sail i wireddu Cynllun y Cyngor.

1.3 Mae nifer o DPA yn newydd (wedi'u nodi gan [N] yn y teitlau), nid oes gan rhai ohonynt dargedau ar hyn o bryd ac maent yno i osod gwaelodlin, gyda rhywfaint o ddata ddim ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae tueddiadau'n cael eu monitro o Ch2 yn ystod 2025/26 gyda'r nod o osod targedau yn 2026/27 lle bo'n briodol.

1.4 Mae'n darparu'r dystiolaeth i alluogi'r Cyngor i fonitro ei berfformiad a bod yn wybodus o ddata wrth nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i ysgogi a sicrhau gwelliannau perfformiad yn y dyfodol.

1.5 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio yn gronnol yn bennaf ac felly mae colofn tuedd ar gael i ddangos y duedd perfformiad o un chwarter i'r llall. Fodd bynnag, mae rhai Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn rhoi darlun ar adeg benodol ar ddiwedd y chwarter ac nid ydynt yn gronnol. I ddangos hyn yn glir, mae'r dangosyddion penodol hyn wedi'u nodi gyda [Q] yn eu teitlau.

1.6 Mae'r adroddiad bellach yn cynnwys cyfeiriad teithio ar gyfer pob dangosydd i ddangos a yw'r perfformiad disgwyliedig i fod yn "uchaf y gorau" neu'n "isaf y gorau". Yn flaenorol nid oedd hyn yn yr adroddiad; fodd bynnag, mae'r wybodaeth bellach yn cael ei chynrychioli'n weledol gan [<] (isaf y gorau) neu [>] (uchaf y gorau) ar ddiwedd teitl y dangosydd.

1.7 Gwnaed rhai newidiadau yn adroddiad chwarter 3 o'i gymharu ag adroddiadau cynharach yn ystod y flwyddyn, yn bennaf i deitlau a disgrifiadau'r dangosyddion; ceir mwy o fanylion yn Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch3.

1.8 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer pob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei chwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:

- Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn - o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd - wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo

## 2. Trosolwg

2.1 Mae mwyafrif (87%) y dangosyddion sydd â thargedau ac a fonitrwyd yn ystod y chwarter yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (CAG Gwyrdd neu Felyn).

2.2 Mae wyth dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau, sef:

2.2.1 Gofal Cymdeithasol a Llesiant - 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hailgyfeirio o fewn 12 mis – COCH – 22.91% yn erbyn targed o 15%.

Mae'r gwasanaeth wedi cynnal adolygiad o'r achosion a gafodd eu hailgyfeirio, gan gadarnhau bod yr amgylchiadau a arweiniodd at y cyfeiriadau hynny yn briodol. Mae gweithdrefn fewnol ddiwygiedig bellach ar waith i gasglu gwybodaeth fwy cynhwysfawr mewn ymateb i'r dangosydd hwn. Bydd adroddiadau mewnol yn nodi'r rhesymau a'r addasrwydd ar gyfer pob ailasesiad. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi comisiynu trosolwg annibynnol gan Weithiwr Cymdeithasol i archwilio'r cyfeiriadau a'r trothwyon, gan gryfhau sicrwydd a thryloywder. Mae diogelu yn parhau'n flaenoriaeth bennaf i'r Cyngor, ac mae'r Cyngor yn dal yn ymrwymedig i gymryd y camau angenrheidiol i amddiffyn plant.

2.2.2 Tai – 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – COCH - 67 diwrnod, Targed - 51 diwrnod

Er bod y perfformiad yn parhau'n Goch, mae'r duedd yn gadarnhaol, gan wella o 89 diwrnod yn Ch1, i 80 diwrnod yn Ch2, i 70 diwrnod yn Ch3, ac yna i 67 diwrnod yn Ch4. Mae'r ffigwr cronnol yn dal i gael ei effeithio gan y broses hanesyddol a oedd ar waith cyn Ebrill, pan oedd eiddo a ddychwelwyd yn cymryd tua 101 diwrnod ar gyfartaledd i'w hail-osod. Ers gweithredu'r prosesau newydd ym mis Ebrill, mae'r gwasanaeth wedi gweld gwelliant cyson, gyda'r amseroedd ail-osod yn sylweddol is ar gyfartaledd sef tua 55 diwrnod. Bydd y gwasanaeth yn parhau i wreiddio'r prosesau hyn i gynnal y duedd gadarnhaol hon.

2.2.3 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – Addasiadau canolig (£1-10k) – AMBR - 208 diwrnod, Targed - 190 diwrnod
a
Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – Addasiadau mawr dros £10k – AMBR – 289 diwrnod, Targed - 221 diwrnod

Effeithiwyd ar y perfformiad gan y penderfyniad i atal cymeradwyaethau newydd ym mis Tachwedd 2024 ac eto ym mis Rhagfyr 2025 er mwyn rheoli cyfyngiadau cyllidebol ac atal gorwario. Creodd hyn effaith ganlyniadol oherwydd pan ailddechreuwyd y cymeradwyaethau, bu mewnlifiad o gymeradwyaethau newydd ac erbyn hynny roedd llawer o'r contractwyr llwyddiannus eisoes wedi symud ymlaen at brosiectau eraill, gan achosi oedi cyn dechrau'r contractau. Gwaethygwyd hyn ymhellach gan nifer gyfyngedig o gontractwyr lleol sydd ar gael i wneud gwaith DFG, gan greu patrwm blynyddol sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni a rheoli llwythi gwaith contractwyr.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i geisio cynyddu nifer y contractwyr drwy gynnal digwyddiadau cwrdd a chyfarch, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau gydag awdurdodau lleol eraill, ond mae'r farchnad ar gyfer contractwyr addas yn fach.

Erbyn diwedd Mawrth 2026, cwblhawyd 35 o eiddo gydag addasiadau canolig a 2 eiddo gydag addasiadau mawr. Ar hyn o bryd, mae 35 o gynlluniau sydd wedi cymeradwyo yn dal heb eu cwblhau a byddant yn cario drosodd o flwyddyn ariannol 2025/26 i 2026/27, sy'n golygu y bydd angen dyrannu adnoddau rhwng y cynlluniau parhaus hyn a phrosiectau newydd. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd amlwg yn nifer y Cynlluniau Gofal Addasiadau, o 126 yn 2024/25 i 200 yn 2025/26. Er na fydd pob cynllun yn cael ei gymeradwyo, mae'r cynnydd cyffredinol yn y galw am addasiadau DFG yn nodedig a bydd angen ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cael eu cwblhau'n brydlon.



2.2.4 Tai – 06) Nifer y Tai Cyngor newydd a ddatblygwyd, a chyn-Dai Cyngor a brynwyd yn ôl ac a ddygwyd yn ôl i ddefnydd fel tai rhent y Cyngor – AMBR – 31 yn erbyn targed o 40 ar gyfer y flwyddyn

Ychwanegwyd 31 o unedau newydd at y stoc dai yn ystod 2025/26. Yn anffodus, mae cymhlethdodau ar y safle wedi arwain at oedi i ddatblygiad 38 o unedau tai cymdeithasol ychwanegol a oedd i fod i gael eu cwblhau cyn mis Mawrth 2026 yn wreiddiol. Mae'r rhain bellach wedi'u hail raglennu i'w cwblhau erbyn diwedd mis Medi, a byddant yn cyfrif tuag at darged 2026/27.

2.2.5 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol – AMBR – 161, Targed – 175

Ni werthwyd unrhyw gontractau ychwanegol yn ystod Ch4. Mae'r galw am angorfeydd yn parhau i ostwng, wedi'i yrru gan ostyngiad mewn perchnogaeth cychod a ffafriaeth gynyddol am gyfleusterau marina cerdded ymlaen yn hytrach na model angori presennol y Cyngor. Mae'r gofyniad i lesddeiliaid brynu a gosod eu hoffer eu hunain yn golygu bod cynnig y Cyngor yn llai cystadleuol o gymharu â marinas cyfagos yng Nghonwy, Caernarfon a Phwllheli.

Yr unig ffordd o gynyddu'r galw'n sylweddol fyddai gosod angorfeydd sy'n eiddo i'r Cyngor ac sy'n cael eu gosod ganddo, yn debyg i fodelau eraill. Fodd bynnag, byddai'r buddsoddiad cychwynnol sydd ei angen ar gyfer opsiynau o'r fath yn sylweddol ac nid yw'n ymarferol o fewn y gyllideb bresennol.

Er na fydd y buddsoddiad arfaethedig mewn system reoli harbwr ar-lein yn cynyddu'r galw yn uniongyrchol, bydd yn gwneud y broses yn haws i gwsmeriaid drwy olrhain defnydd angorfeydd, awtomeiddio bilio blynyddol, atgoffa defnyddwyr pan fydd eu contractau angori i fod i gael eu hadnewyddu, a symleiddio ceisiadau am angorfeydd.

2.2.6 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – COCH – 64.17%, Targed - 70%

Roedd perfformiad ar gyfer 2025/26 yn 64.17% yn erbyn targed o 70%, sy'n cynrychioli dirywiad o'i gymharu â'r 65.07% yn 2024/25 a'r 65.01% yn 2023/24.

Mae’r gyfradd ailgylchu wedi’i heffeithio’n andwyol gan dywydd sychach yn gynharach yn y flwyddyn, a arweiniodd at gasglu llawer llai o wastraff gwyrdd nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae’r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ei strategaeth hirdymor o leihau gwastraff cyffredinol a chynyddu ailgylchu drwy ymgysylltu â chymunedau a gwaith y tîm ymyrraeth, ond bydd y newidiadau ymddygiadol hyn yn cymryd amser i’w gweld yn y data.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n ddiweddar â thrigolion ar y posibilrwydd o -

- newid trefniant y bocs troli i gasglu papur a chardfwrdd gyda'i gilydd
- rhoi cynwysyddion ychwanegol i aelwydydd i storio ailgylchu ychwanegol
- lleihau'r capasiti ar gyfer gwastraff cyffredinol drwy wagio biniau du bob 4 wythnos yn hytrach na phob 3 wythnos.

Mae ymatebion i’r arolwg, a oedd yn fwy na 4,000 i gyd, wrthi’n cael eu dadansoddi, a bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith a’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gynnar yn 2026/27.

2.2.7 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen – AMBR – 83%, Targed – 90%

Ni chyrhaeddodd perfformiad cyffredinol FOI ar gyfer 2025/26 y targed blynyddol o 90%, gyda’r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn 83%. Fodd bynnag, dangosodd y perfformiad welliant clir a chyson drwy gydol y flwyddyn, gan godi o 74% yn Ch1 i 83% erbyn diwedd Ch4. Yn nodedig, cyflawnodd y gwaith FOI a gwblhawyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth y targed o 90%. Mae

hyn yn arbennig o galonogol gan i'r gwelliant hwn gael ei wireddu cyn gweithredu'r broses CRM newydd, y disgwylir iddi gryfhau perfformiad FOI ymhellach wrth symud ymlaen.

2.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

2.3.1 Parhaodd gweithgarwch hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn, gyda 82 o swyddogion yn derbyn hyfforddiant
2.3.2 Parhaodd cyfran uchel o swyddi (86%) i gael eu hysbysebu gyda gofynion iaith Gymraeg ar lefel 3 neu uwch
2.3.3 Cyflawnodd 100% o blant eu disgwyliadau targed (trochi) yn yr Uned Iaith Gymraeg
2.3.4 Mae 249 o oedolion bellach yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, gan ragori ar y targed o 224
2.3.5 Mae dyletswyddau diogelu statudol ar gyfer oedolion a phlant yn gyson yn cyrraedd neu'n rhagori ar dargedau
2.3.6 619,301 o gyfranogiadau yng ngweithgareddau Môn Actif, gan ragori ar y targed o 604,634
2.3.7 Y gyfran o ymadawyr Blwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) oedd 0.6%, gwelliant o'i gymharu â'r 1.9% yn 2024/25 a'r 4% yn 2023/24
2.3.8 Perfformiodd y gwasanaeth llyfrgell yn dda, gyda arolygon defnyddwyr yn dangos bod 97.9% o ddefnyddwyr oedolion yn graddio'r gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn, a defnyddwyr 16 oed neu iau yn rhoi sgôr boddhad gyfartalog o 9.5 allan o 10
2.3.9 Cwblhawyd atgyweiriadau ymatebol tai o fewn yr amserlen darged (17 diwrnod yn erbyn targed o 18 diwrnod) ac roedd boddhad tenantiaid gyda'r atgyweiriadau yn 86% ac yn parhau'n uwch na'r targed o 85%
2.3.10 Cwblhawyd yr holl archwiliadau hylendid bwyd risg uchel, gan ragori ar y targed blynyddol yn dilyn gweithredu gwasanaeth ffocws i gwblhau'r archwiliadau oedd yn weddill yr adroddwyd arnynt yn Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch3
2.3.11 Parhaodd perfformiad cynllunio yn gryf yn gyson, gyda 96% o geisiadau cynllunio'n cael eu penderfynu mewn pryd
2.3.12 Mae pob categori ffordd (A, B ac C) yn Wyrdd yn erbyn y targedau, gyda dim ond 1.5% o ffyrdd A, 1.1% o ffyrdd B a 5.4% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael.

2.4 Mae ein perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer pob dangosydd cymaradwy (48 i gyd) yn dangos bod 20 (42%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 24 (50%) wedi dirywio a 4 (8%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

2.5 O'r 24 sydd wedi dirywio, mae 62% yn parhau i fod uwchlaw neu o fewn 5% i'r targedau, mae 21% yn Ambr neu'n Goch yn erbyn targedau, ac nid oes gan 17% unrhyw dargedau.

## 3. Yr Iaith Gymraeg

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | Ch4 24/25 | Tuedd Blwyddyn | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran o swyddi hysbysebir gan y Cyngor gyda'r gofyniad iaith Gymraeg lefel 3 ac uwch [N] [>] | 85% | 88% | 86% | 86% | 82% | G | ➔ | 86% | ➔ | |
| 02) Nifer swyddogion sydd yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg [>] | 50 | 64 | 67 | 82 | 82 | G | ↑ | 89 | ↓ | |
| 03) Nifer o gwynion sydd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safonau iaith Gymraeg [<] | 0 | 0 | 0 | 3 | 8 | G | ↓ | 8 | ↑ | |
| 04) Nifer o gwynion arweiniodd at ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg [<] | 1 | 1 | 1 | 2 | | | ↓ | 0 | ↓ | |
| 05) Canran o ymweliadau â rhyngwyneb ein prif wefan yn Gymraeg [>] | 9% | 7% | 8.4% | 8.4% | 9% | M | ➔ | 9% | ↓ | |
| 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg [>] | - | 6% | 6.4% | 6% | 8% | M | ↓ | 9% | ↓ | Cynhaliwyd un ymgynghoriad mawr yn Ch4 gyda chyfanswm o 4,177 o ymatebion, a darparwyd 227 ohonynt yn Gymraeg |
| 07) Canran y dilynwyr sy'n dilyn ochr Gymraeg prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor [>] [Q] | 23% | 23% | 23% | 22% | 23% | M | ↓ | 23% | ↓ | Cynnydd yn nifer y dilynwyr ar Facebook (276 yn fwy nag yn Ch1) ond gostyngiad yn nifer y dilynwyr ar X (103 yn llai nag yn Ch1) |
| 08) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] [>] | | | | 66.20% | 67% | M | ↓ | 67% | ↓ | |
| 09) Uned Iaith - % o blant yn cyrraedd eu disgwyliadau (trochi) [N] [>] | | | 100% | 100% | 95% | G | ➔ | | | |
| 10) Nifer busnesau yn derbyn cefnogaeth Iaith Gymraeg [N] [>] | | | | 27 | | | | | | Derbyniodd 55% o'r busnesau a gefnogwyd gefnogaeth Iaith Gymraeg |

## 4. Gofal Cymdeithasol a Lleisiant

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | Ch4 24/25 | Tuedd BI | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer yr oedolion sy’n derbyn Taliadau Uniongyrchol [>] | 256 | 247 | 262 | 249 | 224 | G | ↓ | 232 | ↑ | |
| 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol [>] | 96.34% | 94.15% | 94.31% | 90% | 90% | G | ↓ | 89% | ↑ | |
| 03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â’r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol [>] | 88.07% | 87.64% | 88.27% | 88.28% | 85% | G | → | 87% | ↑ | |
| 04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae’r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal [<] | 295 | 323 | 319 | 311 | 335 | G | ↑ | 321 | ↑ | |
| 05) Canran y rhai sy’n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn [>] | 98.20% | 98.60% | 98.70% | 99.80% | 93% | G | ↑ | 94% | ↑ | |
| 06) Yr amser y mae’r holl blant sy’n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi’i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter [<] | 163 | 170 | 181 | 185 | 270 | G | ↓ | 140 | ↓ | |
| 07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr [<] | 3.57% | 1.56% | 5.71% | 5.71% | 15% | G | → | 0% | ↓ | |
| 08) Canran y cyfeiriadau plant sy’n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [<] | 7.69% | 15.68% | 18.60% | 22.91% | 15% | C | ↓ | 14% | ↓ | Roedd 107 o'r 467 cyfeiriad yn ail-gyfeiriadau |
| 09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â’r rheoliadau [>] | 90.61% | 90.39% | 90.98% | 90.17% | 90% | G | ↓ | 91% | ↓ | |
| 10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni [>] | 100% | 100% | 100% | 92.86% | 85% | G | ↓ | 100% | ↓ | |
| 11) Nifer o ymweliadau a Chanolfannau Hamdden [>] | 129,096 | 260,023 | 404,982 | 575,673 | 569,634 | G | ↑ | 565,574 | ↑ | |
| 12) Nifer y cyfranogiadau yng ngweithgareddau Môn Actif [N] [>] | 146,746 | 296,458 | 445,982 | 619,301 | 604,634 | G | ↑ | | | |
| 13) Canran o rieni sy'n teimlo eu bod wedi gweld cynnydd yn dilyn cwblhau y rhaglen Positive Parenting Programme (PPP) [N] [>] | | | | 100% | | | | | | |

## 5. Addysg

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | Ch4 24/25 | Tuedd Blwyddyn | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor) [>] | 93.2% | 93.2% | 92.7% | 93.0% | 95% | M | ↑ | 93.5% | ↓ | |
| 02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor) [>] | 88.2% | 89.7% | 88.4% | 88.2% | 90.00% | M | ↓ | 88.3% | ↓ | |
| 03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth [NEET] [<] | | | | 0.6% | 2.00% | G | | 1.9% | ↑ | |
| 04) Nifer yr ysgolion mewn Categori Dilynol / Statudol gan Estyn [<] | 1 | 1 | 1 | 1 | | | → | 0 | ↓ | |
| 05) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol [<] | 23 | 2 | 15 | 19 | | | ↑ | 21 | ↑ | |
| 06) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol [<] [Q] | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | G | → | 6 | → | |
| 07) Canran yr oedolion sy'n credu, ar y cyfan, fod y gwasanaeth llyfrgell maen nhw'n ei ddefnyddio yn 'dda iawn' neu'n 'dda' [N] [>] | | | | 97.9% | 95% | G | | | | 768 o ymatebion i'r arolwg |
| 08) Y sgôr cyfartalog gyffredinol allan o ddeg a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell y maent yn ei ddefnyddio [N] [>] | | | | 9.5 | 9 | G | | | | 155 o ymatebion i'r arolwg |
| 09) CDU - canran o blant sy'n cyrraedd eu targedau [N] [>] | | | | 90.10% | | | | | | |
| 10) Nifer y camau cynnydd lefel Nofio Môn a gyflawnwyd fel rhan o weithgareddau Môn Actif [N] [>] | 924 | 1610 | 2286 | 3016 | 2800 | G | ↓ | | | |

## 6. Tai

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | Ch4 24/25 | Tuedd BI | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol [<] | 15 | 14 | 15 | 17 | 18 | G | ↓ | 15 | ↓ | |
| 02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol [>] | 84% | 88% | 87% | 86% | 85% | G | ↓ | 86% | → | |
| 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) [N] [<] | 89 | 80 | 70 | 67 | 51 | C | ↑ | | | Gwelliant parhaus gyda gweithredu polisi newydd. Ar gyfer pob uned ers mis Ebrill, roedd yr amser gwag cyfartalog yn 55.3 diwrnod |
| 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau (£1k-10k) [<] | 205 | 204 | 201 | 208 | 190 | A | ↓ | 195 | ↓ | Cwblhawyd 35 o addasiadau ac roedd nifer fach o gontractwyr, gan arwain at gyfartaledd o 208 diwrnod i gwblhau |
| 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (>£10k) [<] | 285 | 285 | 289 | 289 | 221 | A | → | 229 | ↓ | Ni chwblhawyd unrhyw addasiadau newydd ers Ch1 |
| 06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor [>] | 4 | 13 | 20 | 31 | 40 | A | ↓ | 59 | | Mae oedi ar y safle wedi golygu bod cartrefi newydd yn llithro i mewn i 2026/27 |
| 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol [<] [Q] | 3.19% | 3.35% | 2.16% | 2.66 % | 3.10% | G | ↓ | 3.03% | ↑ | |
| 08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy'n hymyraethau Tai Gwag [>] | 15 | 32 | 55 | 70 | 50 | G | ↑ | 63 | ↑ | |
| 09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref [>] | 80% | 90% | 95% | 95% | 85% | G | → | 94% | ↑ | |
| 10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62) [<] [Q] | 117 | 292 | 462 | 600 | | | ↑ | 549 | ↓ | |
| 11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd [<] [Q] | 79 | 84 | 73 | 71 | | | ↑ | 98 | ↑ | |

## 7. Economi

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | Ch4 24/25 | Tuedd Blwyddyn | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd [>] | 70% | 112% | 109% | 91% | | | ↑ | 73% | ↑ | |
| 02) Gwariant (cyfalaf a refeniw) ar brosiectau isadeiledd, datblygu economaidd ac adfywio (£) [N] [>] | £1.653m | £2.758m | £7.971m | £10.286m | | | | | | |
| 03) Canran yr unedau busnes a masnachol osodwyd gan y Cyngor [N] [>] [Q] | 95% | 98% | 98% | 100% | 90% | G | ↑ | | | |
| 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol [>] | 100 | 151 | 161 | 161 | 175 | A | → | 191 | ↓ | Dim contractau newydd yn Ch4 |
| 05) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd [>] | 94% | 95% | 96% | 96% | 90% | G | → | 98% | ↓ | |
| 06) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod [>] | 87% | 79% | 81% | 78% | 80% | M | ↓ | 92% | ↓ | Datryswyd 222 o'r 285 achos o fewn 84 diwrnod |
| 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd [>] | 85% | 64% | 65% | 100% | 90% | G | ↑ | 89% | ↑ | Blaenoriaethodd swyddogion y gwaith hwn yn Ch4 a llwyddwyd i gwblhau pob archwiliad a gynlluniwyd ac a oedd yn hwyr |
| 08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd [>] | 99% | 99% | 99% | 99% | 95% | G | → | 99% | → | |
| 09) Nifer yr ymyriadau SPF sy'n cefnogi llwybrau at gyflogaeth [N] [>] | 162 | 320 | 1120 | 1528 | | | ↓ | | | |

## 8. Newid Hinsawdd

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | Ch4 24/25 | Tuedd Blwyddyn | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy’n dod o adeiladu’r cygnor (tC02e) [<] | | | | 4179 | | | | 4184 | ↑ | |
| 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio [>] | 65.95% | 66.36% | 65.54% | 64.17% | 70% | C | ↓ | 65.07% | ↓ | Gostyngiad o'i gymharu â 2024/25. Mae dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd. |
| 03) Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o adeiladu’r Cyngor [>] | 46% | 44.4% | 44.1% | 44% | | | → | 47% | ↓ | |
| 04) Canran y strydoedd sy’n lân [>] | 100% | 100% | 99.80% | 99.90% | 96% | G | → | 97.80% | ↑ | |
| 05) Nifer o ddiwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon [<] | 0.01 | 0.03 | 0.03 | 0.03 | 1 | G | → | 0.08 | ↑ | |
| 06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<] | | | 1.5% | 1.5% | 1.8% | G | | 1.8% | ↑ | |
| 07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<] | | | 1.1% | 1.1% | 1.6% | G | | 1.6% | ↑ | |
| 08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<] | | | 5.4% | 5.4% | 7.3% | G | | 7.3% | ↑ | |
| 09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tC02e inc WTT) [<] | 156.5 | 311.02 | 464.86 | 635.09 | 613.17 | M | ↓ | 613.17 | ↓ | |
| 10) Nifer o Ysgolion yn cymryd rhan mewn cynlluniau Newid Hinsawdd wedi eu achredu [N] [>] | | | | 19 | | | | | | |
| 11) Nifer o systemau gwresogi carbon isel wedi eu gosod yn adeiladau y Cyngor [N] [>] | | 11 | 16 | 16 | | | → | | | Cwblhawyd 16 gosodiad gyda 18 arall wedi'u cynllunio ar gyfer 2026/27. |
| 12) Defnydd o bwyntiau gwefru cyhoeddus y Cyngor (kwh) [N] [>] | 76,786 | 149,427 | 189,617 | 222,472 | | | ↓ | | | |

Tudalen 30

## 9. Iechyd Cyngor Cyfan

| | CAMG | Tuedd | Cyllideb | Canlyniad | Amrywiant (%) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw) [<] | G | ↑ | £192,983,304 | £191,657,960 | -0.69% | |
| 02) Alldro ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf) [>] | | | | | | Data ddim ar gael tan Gorffennaf |
| 03) Incwm yn erbyn Targedau (ac eithrio grantiau) [>] | G | ↓ | | | 16.34% | |
| 04) Balansau cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn [>] | | ↑ | | -£18,809,450 | | |
| 05) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer [<] | G | ↑ | 2.35% | 2.01% | -0.34% | |
| 06) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb [<] | | → | | 2 | | |
| 07) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 bl diwethaf) [>] | M | ↑ | | 97.5% | | |
| 08) % y Mân Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 bl diwethaf) [>] | M | ↑ | | 92.6% | | |

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Targed Ch4 | CAMG Ch4 | Tuedd | Sylwadau Ch4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 09) Cyfanswm y cwynion cam 2 a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol [<] | 1 | 3 | 13 | 20 | 18 | Y | ↓ | |
| 10) Cyfanswm % y cwynion cam 2 a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) [>] | 100% | 87% | 78% | 82% | 80% | G | ↑ | |
| 11) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) [>] | 80% | 80% | 82% | 93% | 80% | G | ↑ | |
| 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser [>] | 74% | 76% | 79% | 83% | 90% | A | ↑ | |
| 13) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth) [>] | 32% | 35% | 35% | 35% | | | → | |
| 14) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | 2376 | 2380 | 2380 | 2382 | | | | |
| 15) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd [<] | 1.93 | 3.93 | 6.58 | 9.08 | 9.25 | G | ↑ | |
| 16) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 0.92 | 1.73 | 2.46 | 4.09 | | | ↓ | |
| 17) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 1.01 | 2.2 | 4.02 | 4.99 | | | ↑ | |
| 18) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant) [<] | | | | 8% | | | | |
| 19) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith [>] | 78% | 73% | 69% | 68% | 70% | Y | ↓ | |

# 10. Casgliad ac Argymhellion

10.1 Mae'r perfformiad o 87% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y chwarter yn gadarnhaol.

10.2 Mae hyn yn dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor.

10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn:**

10.3.1 Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis;

10.3.2 Tai – 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);

10.3.3 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – Addasiadau canolig (£1-10k);

10.3.4 Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau dros £10k;

10.3.5 Tai – 06) Nifer y Tai Cyngor newydd a ddatblygwyd, a chyn-Dai Cyngor a brynwyd yn ôl ac a ddygwyd yn ôl i ddefnydd fel tai rhent y Cyngor;

10.3.6 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol;

10.3.7 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;

10.3.8 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser

03/2026

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 10 Mehefin 2026 |
| **Pwnc:** | Dogfen Gyflawni Blynyddol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Robin Williams | Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Cyllid,Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Huw Ynyr | Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn amlinellu rhaglenni gwaith blynyddol y Cyngor sydd wedi'u cynllunio i gyflawni disgwyliadau Cynllun y Cyngor.

Mae'n rhoi mwy o fanylion gweithredol yn unol a'r chwech amcan strategol yn erbyn agweddau penodol o'r ddarpariaeth flynyddol.

Gofynnir i'r pwyllgor graffu ar gynnwys y ddogfen a'i gymeradwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

Argymhellir bod y Pwyllgor sgriwtini yn craffu y Ddogfen Gyflawni Flynyddol sy'n amlinellu yr hyn mae'r Cyngor yn ymrwymo i'w gyflawni yn ystod 2026/27 a darparu adborth i'r Pwyllgor Gwaith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

| |
|---|
| Mae’r dogfen strategol hon yn gosod allan gweithredoedd a anelir i’w gwireddu yn ystod 26/27 a hynny er mwyn gweithio at wireddu amcanion strategol Cynllun y Cyngor. |

**5. Themâu sgriwtini allweddol**

| |
|---|
| Y meysydd allweddol ddylai’r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:<br><br>1. Cyflawni amcanion strategol 2026/27<br>2. Adnoddau priodol i wireddu’r blaenoriaethau<br>3. Trefniadau monitro a mesur cynnydd |

**6. Pwyntiau allweddol / crynodeb**

| |
|---|
| Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn amlinellu rhaglenni gwaith blynyddol y Cyngor sydd wedi'u cynllunio i gyflawni disgwyliadau Cynllun y Cyngor. Mae’n rhoi mwy o fanylion gweithredol yn unol a’r chwech amcan strategol yn erbyn agweddau penodol o’r ddarpariaeth flynyddol. |

**7. Asesiadau effaith**

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a’r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐Do
☒Naddo

| |
|---|
| Os naddo, eglurwch pam:<br>Dim yn addas – disgwylir i’r Gwasanaethau gyflawni asesiad effaith wrth wireddu y darnau gwaith penodol. |

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| *Crynhowch ganfyddiadau’r asesiad effaith. Lle’n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar Gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.*<br><br>Dim yn addas – disgwylir i’r Gwasanaethau gyflawni asesiad wrth wireddu y darnau gwaith penodol. |

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy’n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| *Crynhowch ganfyddiadau’r asesiad effaith. Lle’n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.* |

| |
|---|
| Dim yn addas – disgwylir i'r Gwasanaethau gyflawni asesiad wrth wireddu y darnau gwaith penodol. |

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| *Crynhowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar Gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.*<br><br>Dim yn addas – disgwylir i'r Gwasanaethau gyflawni asesiad wrth wireddu y darnau gwaith penodol. |

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Positif / Niwtral / Negyddol a sut<br><br>Dim yn addas – disgwylir i'r Gwasanaethau gyflawni asesiad wrth wireddu y darnau gwaith penodol.<br><br>Er hynny mae'r ddogfen yn gosod allan Blaenoriaethau y Cyngor yn erbyn ein amcan strategol Newid Hinsawdd. |

## 8 Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Dim yn addas – disgwylir i'r Gwasanaethau gyflawni y ffrydiau gwaith o fewn eu cyllidebau neu drwy arian grant ble mae hynny yn berthnasol. |

## 9 Atodiadau

| |
|---|
| Atodiad 1 Dogfen Gyflawni Flynyddol 2026/27 |

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Gwyndaf Parry |

Tudalen 36

# Dogfen Gyflawni Flynyddol 2026/27

**Dyddiad Cyhoeddi:** Mehefin 2026

DRAFT

## Dogfen Gyflawni Flynyddol

Mae'r ddogfen hon yn edrych yn fanwl ar y gwaith fydd y Cyngor yn ymgymryd ag o yn ystod 2026/27 i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol sydd wedi'u gosod dan bob un o'r amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor 2023 - 2028.

## Cynllun y Cyngor 2023-2028 - Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolog i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar bob lefel; darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu'.

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith.

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn 'gartref'.

### Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at bod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

## Cynllun y Cyngor 2023-2028 - Gwerthoedd

Mae Cynllun y Cyngor 2023-2028 yn cael ei gefnogi gan werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

### Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd


Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r ynys.

## Y Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.




Tudalen 39

## Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2026/27 byddwn yn: |
|---|---|
| Sicrhau bod ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael ei diwygio yn 2026 a'i bod yn ymateb i ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf | • Derbyn sicrwydd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymaeg ynglyn â disgwyliadau strategaeth newydd<br>• Sicrhau cymeradwyaeth i Strategaeth Hybu'r Gymraeg newydd a rhoi y strategaeth newydd ar waith. |
| Diweddaru ein polisi iaith Gymraeg a datblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | • Mesur dealltwriaeth staff o ofynion y safonau a'r polisi iaith Gymraeg newydd<br>• Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r cyngor<br>• Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. |
| Ehangu ein cynnig o hyfforddiant er mwyn creu mwy o gyfleoedd i'n staff, a'n cynghorwyr, partneriaid a thrigolion yr ynys ddatblygu eu sgiliau Cymraeg | • Parhau i gydweithio efo Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin i ddarparu cyfleoedd i staff ac aelodau etholedig fel y gallent wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy:<br>  ▪ Gynnal pump dosbarth iaith Gymraeg<br>  ▪ Cynnal ymgyrchoedd, o leiaf unwaith y mis, i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg<br>  ▪ Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.<br>• Rhoi cynllun ar waith i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y maes hamdden a chwaraeon |

# Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2026/27 byddwn yn: |
|---|---|
| Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth | • Gweithio gyda'n gilydd i roi ar waith Cynllun Strategol Ynys Oed Gyfeillgar:<br>○ Datblygu ein rhaglen ataliol gan ddod o hyd i leoliad hwylus sy'n cynnig cyfleoedd i asesu, hyrwyddo a datblygu sgiliau byw'n annibynnol<br><br>• Trawsnewid gwasanaethau dydd drwy barhau i weithio gyda phartneriaid i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol, ac ehangu'r model yn dilyn ymgysylltiad<br>• Gweithio i gynnal y niferoedd isel o bobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET), a gweithio i leihau niferoedd eto lle bynnag y bo'n bosibl<br><br>• Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif<br>• Gweithredu System archebu gweithgareddau newydd a modern, fydd yn galluogi derbyn taliadau aelodaeth ar-lein<br>• Buddsoddi £2.5m yng nghyfleusterau Môn Actif:<br>○ Plas Arthur; gwella a moderneiddio i gynnwys derbynfa, caffi, chwarae meddal, stiwdio ffitrwydd ac ystafelloedd newid<br>○ Amlwch; buddsoddi yn yr ystafelloedd newid ochr gwlyb<br><br>• Sicrhau bod cronfa ddata Gofal Cymdeithasol modern (Cysylltu Gofal Mosaic ) yn weithredol. |
| Gwella ac ymestyn y ddarpariaeth tai a chymorth | • Moderneiddio a gwneud y gorau o 'Dai â Chymorth' drwy greu capasiti ychwanegol o 12 uned o safon, yn cynnwys:<br>○ Hen safle'r farchnad, Y Fali (4 uned ar gyfer7 person)<br>○ Pencoed, Rhostrehwfa ( 4 uned – 3 wedi'i llenwi, lle i un arall)<br>○ Maes y Ffridd, Gwalchmai (4 uned)<br>○ Chwilio am leoliadau pellach addas ar draws yr ynys. |

| | |
|---|---|
| | • Adnabod rhaglen ychwanegol o 3 eiddo addas i fodloni gofynion oes defnyddwyr gwasanaeth. |
| Ehangu cyfleoedd i bobl dderbyn gofal yn agosach at eu cymunedau lleol | • Cynyddu cyfranogiad mewn hybiau cymunedol integredig, cynnal lleiafswm o 6 Fforwm Cymuned a ehangu hygyrchedd yr hybiau, gan ddarparu gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol yn rhai o’r hybiau hynny<br>• Gweithio gyda phartneriaid allweddol a sefydliadau cymunedol i ddatblygu cyfleoedd ataliol er mwyn gwella iechyd a llesiant unigolion, gan gynnwys:<br>  ○ Agor Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa – a chreu gweithgareddau cefnogol ychwanegol ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr o fewn Canolfan Dementia Ynys Môn erbyn Hydref 2026<br>  ○ Ehangu rhaglen Nifty60s i chwe cymuned erbyn Hydref 2026<br>  ○ Gweithio gyda Cynghrair Seiriol i beilota prosiect trafnidiaeth gymunedol gan edrych ar efelychu llwyddiant ardaloedd eraill<br>• Helpu pobl unig ac ynysig drwy drefnu 11 digwyddiad sy’n pontio cenedlaethau:<br>  ○ 2 ddigwyddiad Sporting Memories<br>  ○ 4 gêm Boccia rhwng cenedlaethau erbyn<br>  ○ 5 gweithgaredd rhwng cenedlaethau erbyn Mawrth 2027<br>• Annog 500 o unigolion i gyfranogi yn y cynllun Dementia Actif. |
| Datblygu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer plant mewn gofal, Cartrefi Clyd a gofalwyr maeth | • Dod o hyd i eiddo ar gyfer un Cartref Clyd pellach ar yr ynys (un wedi prynu yn 25/26)<br>• Sefydlu chwech lleoliad gofal maeth ychwanegol yn ystod 2026/27<br>• Ehangu a gwella darpariaeth gofal plant:<br>  ○ Gwella cymhwystra plant<br>  ○ Cynyddu nifer y bobl sy’n manteisio ar y cynnig gofal plant<br>  ○ Gwella ansawdd lleoliadau gofal plant<br>  ○ Mesur boddhad rhieni. |

## Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2026/27 byddwn yn: |
|---|---|
| Sicrhau bod y strategaeth foderneiddio cymunedau dysgu yn creu ysgolion effeithiol gydag arweinyddiaeth gref ac amgylchfyd addysgu pwrpasol | • Paratoi a cyflwyno achos busnes amlinellol strategol i Llywodraeth Cymru yn Ch1 2026/27<br>• Cyflwyno *New Project Request* ar gyfer adeilad newydd i Ysgol Uwchradd Caergybi i'r WEPCO a cychwyn Cam 1 MIM<br>• Paratoi a gweithredu cynllun strategol newydd, i ddatblygu perthynas waith well rhwng darparwyr addysg ôl-16 presennol.<br>• Moderneiddio systemau rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer ysgolion er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd |
| Datblygu'r Gymraeg ar draws pob lleoliad addysgol trwy wireddu nodau, amcanion a deilliannau a osodwyd yng 'Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' | • Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith<br>• Cefnogi 3 ysgol i ategu eu cynllun hunan wella CSGA drwy ymgysylltu ag uwch reolwyr, Canolfannau Iaith a swyddog Siarter Iaith. |
| Sicrhau'r profiadau a'r cynnydd gorau bosibl i blant a phobl ifanc drwy ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob cymuned ledled yr ynys | • Gweithredu cynllun strategol a gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb mewn ysgolion ym Môn i 95%<br>• Adolygu, addasu a moderneiddio cynnig addysgol yr Oriel/Archifau a Llyfrgelloedd i ysgolion<br>• Sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru a phrosesau asesu a phontio ar waith ym mhob ysgol. Cynnal ymweliadau gan Uwch Reolwyr- teithiau dysgu / craffu ar lyfrau / trafodaethau gyda dysgwyr ac ymarferwyr<br>• Casglu a chraffu ar gynlluniau pontio ysgolion er mwyn datgan os yn cyrraedd y gofynion y llwyddiannus<br>• Cynlluniau cyd-weithio Cynradd / Uwchradd - sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cyrraedd gofynion / deilliannau yn llwyddiannus |

| | |
|---|---|
| | • Sicrhau bod pob ardal dalgylch yn gweithio gyda'i gilydd, o ysgol i ysgol, i gefnogi plant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u sgiliau digidol<br>• Gweithio at gwblhau hyfforddiant diogelu Grŵp A, B a C 100% ar gyfer staff sydd angen y lefel hyfforddiant perthnasol<br>• Gweithio at ddod yn Ynys Wybodus am Drawma gan cefnogi dwy ysgol arall i gyflawni achrediad TIS<br>• Creu gwasanaethau newydd ADY, Chynhwysiad ag Ymgysylltu sydd yn gallu diwallu anghenion dysgwyr a chefnogi ysgolion<br>• Adolygu prosesau mapiau darparu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiant mewn ysgolion i hwyluso'r gwaith o fonitro a mesur addasrwydd, ansawdd a chanlyniadau dysgwyr ADY. |
| Cynyddu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion er mwyn i drigolion Ynys Môn ddatblygu'n bersonol trwy gydol eu bywyd | • Gweithio at gyrraedd 50% o ysgolion yn cynnig mannau cymunedol<br>• Gweithio gyda partneriaid tuag at gael mwyafrif o'n Ysgolion yn agor eu cyfleusterau tu allan i oriau ysgol er mwyn annog plant a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol a chymunedol.<br>• Holiadur blynyddol i'w rannu er mwyn mesur effaith y cynllun<br><br>• Gweithredu y Cynllun Darparu Gwasanaeth Addysg Oedolion yn y Gymuned. Goruchwylio darpariaeth y Rhwydwaith Addysg Oedolion Gwynedd a Môn; Monitro trwy adroddiadau ar y ddarpariaeth sydd yn cael ei gyflenwi yn chwarterol. |

DRAFT

## Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2026/27 byddwn yn: |
|---|---|
| Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd gan weithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023 | • Cynyddu nifer yr eiddo sy'n cydymffurfio gyda tharged ynni SAP 75 SATC 2023 o 30% i 40%; cynnydd targed o 400 eiddo<br>• Sicrhau fod holl eiddo'r Cyngor gyda Llwybr Ynni Targed. |
| Agor trydydd cynllun tai gofal ychwanegol a gyda chynlluniau am y pedwerydd | • Cadarnhau hawl cynllunio ar gyfer Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy<br>• Cychwyn gwaith adeiladu yn ystod chwarter 1 26/27<br>• Ymgysylltu parhaol gyda trigolion lleol i godi ymwybyddiaeth am y cynllun ag ymateb i ymholiadau. |
| Cynyddu'r dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr ynys gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf | • Adolygu'r Polisi Cyffredin ar Osod Tai (PCOT) i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r PCOT cyfredol ynghyd â newidiadau deddfwriaethol Lansio PCOT newydd yn 2025<br>• Datblygu 31 tŷ newydd<br>• Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 70 tŷ gwag<br>• Cynorthwyo hyd at 32 prynwr tro cyntaf i fynd ar y farchnad dai, yn ogystal a<br>• 3 wedi cael cymorth drwy Cynllun Cymorth Prynu Môn. |
| Cynnal asesiad anghenion marchnad tai gyda phrosbectws tai blynyddol er mwyn adrodd ar gynnydd mewn cyflenwad o dai fforddiadwy | • Cyflawni cynllun gweithredu trosi eiddo gwag 31 Mawrth 2027, yn cynnwys:<br>  • Asesiadau wedi ei gwblhau<br>  • Prospectws tai mewn lle. |
| Cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a dyrannu adnoddau er mwyn cynnwys llais ein tenantiaid o fewn ein gwasanaethau | • Cyflawni ein cynllun Profiad Cwsmer - cynnydd o 10% fesul mis mewn cysylltiadau CRM gan denantiaid<br>• Adolygu a gwella ein defnydd o ddata i roi mewnwelediad i feysydd sy'n tan-berfformio a gwelliannau i'n adrodd ar berfformiad. |

## Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys:

| **Erbyn 2028 byddwn wedi:** | **Yn 2026/27 byddwn yn:** |
|---|---|
| Cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni carbon isel | • Gweithio gyda phartneriaid fel GBN i wireddu'r rhaglen SMR gan leihau'r effaith a sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol gorau i bobl leol<br>• Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr<br>• Cytuno ac arwyddo'r PPA (rhwng GBE-N a CSYM) ar gyfer cyflawni materion caniatáu statudol.<br>• Diweddaru Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA/SPG) Wylfa. |
| Cydweithio i wireddu amcanion economi cylchol | • Adolygu trefniadau i gasglu eitemau gellir eu hailddefnyddio (yn hytrach na'u hailgylchu). |
| Datblygu unedau busnes newydd i gynorthwyo tyfiant a datblygiad busnesau lleol | • Parhau i wneud cynnydd gyda Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn drwy:<br>  ○ Sicrhau cyllid cyfalaf er mwyn adeiladu unedau busnesu newydd ac ailddatblygu adeilad y Derfynfa Forol, gyda gwaith ar y safle wedi cychwyn;<br>  ○ Sicrhau cyllid grant ychwanegol i gefnogi gweithgareddau datblygu prosiect ac ymyraethau eraill;<br>  ○ Gweithio ac ymwneud â'r sector preifat i ddenu buddsoddiadau i'r Ynys ;<br>  ○ Targedu buddsoddiad ac ymdrechion adfywio yn y Stryd Fawr;<br>  ○ Cefnogi perchnogion safleoedd yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â safleoedd tir llwyd a safleoedd sy'n peri pryder<br><br>• Goruchwylio'r gwaith o ddarparu Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn<br>• Parhau i ddyrannu grantiau ac arwain ar ymyraethau canol trefi, a dyrannu cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Bro a menter Trawsnewid Tref sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | • Datblygu a chymeradwyo Strategaeth a chynllun gweithredu i'r Ynys, ar gyfer menter 'Treftadleoedd' Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. |
| Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi leol | • Cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i symud ymlaen, sicrhau a sefydlu Rhaglen Porthladd Rhydd llwyddiannus yn Ynys Môn yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a'r DU, a sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn<br>• Anelu i'r Porthladd Rhydd fod yn llawn weithredol erbyn Hydref 2026. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi'n ffurfiol gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn, gyda'r cytundeb yn datgloi gwerth £25 miliwn o gyllid.<br>• O ganlyniad i gefnogaeth gan gyllid cyfalaf Porthladd Rhydd bydd gwaith yn cychwyn o glirio a dymchwel ar safle Peboc, gan baratoi' ar gyfer datblygiadau a buddsoddiadau yn yr ardal yn y dyfodol.<br><br>• Sicrhau cyllid allanol i fynd i'r afael ag anghenion yr Ynys a chyfleoedd economaidd ar Ynys Môn e.e. Cronfa Effaith Balchder Bro, Cronfa Twf Lleol a Chronfa Treftadaeth y Loteri. |
| Tyfu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn ffordd barchus a chynaliadwy er mwyn sicrhau buddion ar gyfer ein cymunedau a'n hymwelwyr | • Darparu'r cynllun gweithredu Tirweddau Dynodedig i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer natur a lliniaru newid hinsawdd yn cael eu gwireddu<br>• Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglenni plannu coed a gwaith dalgylch afon i helpu i wella ansawdd dŵr<br>• Cynnig mwy o gyfleoedd i ffermwyr yn y Tirweddau Dynodedig a'r llain glustogi i wella cynefinoedd<br>• Gweithio gyda ffermwyr i ddarparu model ffermio cynaliadwy, drwy arbrawf Ffermio Bro y Cynllun Ffermio Cynaliadwy<br><br>• Darparu amrywiaeth o weithgareddau i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE<br>• Rheoli Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd (DMP) (2023-2028):<br>• Sefydlu Partneriaeth Cyrchfan Newydd |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Darparu prosiectau allweddol i wella seilwaith a phrofiad ymwelwyr gan leihau'r effaith a phwysau negyddol. Arwain ar welliannau i'r isadeiledd morwrol i gefnogi'r sector twristiaeth.<br>• Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella gweithgareddau i ymwelwyr ar fordeithiau sy'n cyrraedd Caergybi<br>• Ymgynghori a phreswylwyr a busnesau ar yr Ardoll Ymwelwyr i benderfynu os bydd yr Ardoll yn cael ei gyflwyno ar Ynys Mon<br>• Canolbwyntio ar wella'r Llwybr Arfordirol drwy ddefnyddio ffynonellau ariannu allanol, a chysylltu'r gwelliannau hyn gyda phrosiectau gwella natur er mwyn cyfoethogi profiadau'r rheiny sy'n defnyddio'r llwybr arfordirol<br>    ○ Dod o hyd i safleoedd ar gyfer gwelliannau sylweddol, yn dilyn arolwg cyflawni ar gyfleoedd gwella cynefinoedd a,<br>    ○ Defnyddio'r Gronfa Twf Lleol i gynyddu cyllid cyfredol ar gyfer y Llwybr Arfordirol i wella'r llwybr. |
| Ailddatblygu safleoedd diwydiannol a thir llwyd nad ydynt yn cael eu defnyddio | • Cefnogi perchnogion tir i ailddatblygu safleoedd diwydiannol, gan gynnwys: hen safle Anglesey Aluminium, safle Two Sisters, Rhosgoch, Octel (Amlwch), Llangefni a hen safle diwydiannol Lairds ym Miwmares.<br>• Datblygu dogfen Strategaeth a ffefrir ar gyfer y CDLl bydd yn amlinellu'r weledigaeth, amcanion ac opsiynau ar gyfer datblygiadau a'r defnydd o dir ar Ynys Môn. |

DRAFT

## Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at bod yn sefydliad sero net erbyn 2030:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2026/27 byddwn yn: |
|---|---|
| Lleihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y targed net sero erbyn 2030 o fewn cyrraedd | • Cyflawni gweithredoedd i lleihau allyriadau'r Cyngor a nodi'r yn ein Cynllun Blynyddol Tuag at Sero Net 26/27 a'u monitro yn y Grŵp Llywio Sero Net.<br>• Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy gynyddu nifer y cerbydau carbon isel (yn ddibynnol ar gyllid cyfalaf a grant), a:<br>○ Arbrofi â chynllun gwefru gartref ar gyfer fflyd cerbydau trydan Cyngor<br>○ Gosod pwyntiau gwefru ychwanegol ar gyfer cerbydau fflyd ar safleoedd y Cyngor<br>• Gosod paneli solar ar adeiladau'r Cyngor yn ddibynnol ar ddefnyddio cyllideb Salix. |
| Cynyddu cyfraddau ailgylchu | • Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o domestig y Cyngor, drwy:<br>○ Ddadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad<br>○ Mabwysiadu newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu<br>• Cynyddu cyfraddau ailgylchu ar gyfer casglu gwastraff o adeiladau'r Cyngor i 60%<br>• Lleihau digwyddiadau tipio anghyfreithlon. |
| Sicrhau bod gwasanaethau'n ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion allweddol wrth wneud penderfyniadau | • Cwblhau cynlluniau rheoli llifogydd Lôn Trearddur a Bodffordd.<br>• Rhoi nifer o gynlluniau atal llifogydd graddfa bach ar waith<br>• Datblygu cynlluniau atal llifogydd a chyflwyno ceisiadau grant i'w gwireddu yn y dyfodol. |
| Creu opsiynau teithio carbon isel eang i drigolion ac ymwelwyr â'r ynys | • Datblygu cynllun teithio llesol a'i rhoi ar waith ym Menllech a man waith arall<br>• Treialu cynllun trafnidiaeth gymunedol i gysylltu ardaloedd gwledig gyda phrif lwybrau trafnidiaeth<br>• Ymestyn y rhwydwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus ledled yr ynys. |

DRAFT

03/2026

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 10 Mehefin 2026 |
| **Pwnc:** | Trosolwg manwl a chynnydd yn dilyn<br>1) Llythyr Gwirio Sicrwydd Awdurdod Lleol: Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Sir Ynys Môn,<br>2) Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Arolwg a'r Wasanaethau Maethu. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio / swyddog arweiniol a fydd yn cyflwyno'r adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Dyfed W. Jones | Deilydd Portffolio Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Swyddog Gwasanaeth (Cefnogi)** | **Rôl** |
| Fon Roberts | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Sian Roberts | Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Diben yr adroddiad hwn yw rhannu canlyniad:

1) **Gwiriad Sicrwydd Awdurdod Lleol Arolygiaeth Gofal Cymru ar Wasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Sir Ynys Môn**, a gwblhawyd rhwng 12 a 15 Ionawr 2026, a darparu sicrwydd ar ymateb yr Adran i fynd i'r afael â'r materion a amlinellwyd.

2) **Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar y Gwasanaethau Maethu,** a ddigwyddodd ar yr un pryd â'r uchod, ond mewn adolygiad gyda thîm ar wahân yr un wythnos.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac Argymhellion

☒ Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒ Er gwybodaeth

Argymhelliad/argymhellion:



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Argymhellir fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn darllen ac yn deall holl gynnwys y **Llythyr Sicrwydd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar 18 Mawrth 2026** yn ogystal â'r **Adroddiad Arolygiad Maethu dyddiedig 4 Mawrth 2026** - dolenni isod.

Argymhellir fod aelodau yn:

a) cynnig sylwadau ar gynnwys Llythyr Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru.
b) adolygu'r cynllun gwaith sydd wedi ei ddrafftio gan y Gwasanaeth, gan sicrhau ei fod yn myfyrio ar y prif feysydd ar gyfer gwella, fel yr amlygir yn y llythyr, gan gynnig awgrymiadau neu sylwadau.
c) cynnig sylwadau ar yr Adroddiad Arolygiad Maethu. Ni nodwyd unrhyw rybuddion o ran gwella na blaenoriaethu yn yr adroddiad, felly nid oes cynllun gwaith i'w rannu gyda'r panel.

## 4. Sut mae'r argymhelliad/argymhellion yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cyflawni'r gwiriad sicrwydd i adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a bodloni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol yn unol â deddfwriaeth.

Yn ei dro, mae hyn yn cynorthwyo i fodloni amcanion strategol Cynllun y Cyngor - Gofal Cymdeithasol, Llesiant a'r Iaith Gymraeg - drwy dderbyn trosolwg ac adborth allanol cadarnhaol gan ein harolygwyr, ac rydym yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn darparu gwasanaeth o ansawdd yn ein cymunedau.

Yn bwysicach oll, mae ein gwerthoedd craidd, fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028 - Parch, Cydweithio, Gonestrwydd a Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys - yn cael eu cefnogi gan ganlyniadau'r ddau adroddiad.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Themâu allweddol y dylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Monitro Cynllun Gwaith a Gwelliant
2. Pedwar Egwyddor Deddf 2014
3. Adnoddau a Capasiti'r Gweithlu
4. Heriau a Risgiau

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

1. **Llythyr Sicrwydd - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

Mae'r llythyr sicrwydd yn disgrifio canfyddiadau'r gwiriad sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru a gwblhawyd rhwng 12 a 16 Ionawr 2026. Roedd gweithgarwch yr arolygiad a ddilynwyd yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a safonau ansawdd y Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwelliannau yn y maes gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Y nod oedd deall pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur a chynnal gwelliannau ar gyfer pobl a'r gwasanaethau.

Canolbwyntiodd Arolygiaeth Gofal Cymru ar y prif ymholiadau ar bedwar egwyddor Deddf 2014 a cheisio ateb y cwestiynau isod:

<u>Pobl - llais a rheolaeth</u>
- I ba raddau mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y gall plant leisio eu barn, a bod cyfleoedd iddynt fanteisio ar wasanaeth eiriolaeth?
- I ba raddau mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod nifer digonol o fewn y gweithlu, fod ganddynt y sgiliau perthnasol, eu bod yn brofiadol ac yn cael eu cefnogi?

<u>Atal</u>
- I ba raddau mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn isel, a bod yr angen i uwchgyfeirio'r angen yn cael ei atal yn ogystal â sicrhau y rhoddir y canlyniadau gorau posibl i bobl?
- I ba raddau mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, os yw hyn yn ddiogel ac er budd y plentyn drwy ddulliau ataliol, prydlon a seiliedig ar gryfderau.

<u>Llesiant</u>
- I ba raddau mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag cael eu hesgeuluso a'u cam-drin, ac unrhyw fath arall o niwed?
- I ba raddau mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod risgiau'n cael eu dadansoddi'n dda, bod cynlluniau diogelu/gofal a chynllun cymorth ar waith a bod camau'n cael eu cymryd pan fod angen i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed a hyrwyddo eu llesiant?

<u>Partneriaethau</u>
- I ba raddau mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i roi canlyniadau cynaliadwy ac o ansawdd i blant a phobl ifanc?

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cryfderau a meysydd gwella dan bob un o'r penawdau uchod.

Nid ddaethpwyd ar draws unrhyw achos lle roedd gwaith y Gweithiwr Cymdeithasol yn peri pryder yn ystod yr arolygiad.

Dyma rai enghreifftiau a'r cryfderau/ymarfer cadarnhaol a nodwyd:

1. (4.6) Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r heriau wrth recriwtio a chadw ymarferwyr yn y gwasanaethau plant.
   Mae'r awdurdod lleol yn lliniaru'r risgiau hyn drwy fentrau sy'n cael eu cefnogi'n wleidyddol a chorfforaethol, megis Tyfu Eich Hun.
   Mae hyn wedi galluogi ymarferwyr i gymhwyso i swyddi gwaith cymdeithasol, gan gryfhau cynllunio olyniaeth, cadw staff a sefydlogrwydd gwasanaeth ar gyfer plant a theuluoedd.
   **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**
2. (4.14) Mae plant a theuluoedd yn elwa o ymarfer gwybodus am drawma sydd wedi ei ymgorffori yn dda
   ar draws yr awdurdod lleol, yn cynnwys mewn gofal uniongyrchol a lleoliadau addysg. Mae un ysgol uwchradd wedi derbyn statws gwybodus am drawma, sy'n gyflawniad sylweddol.
   **Mae'r model yn cael ei rannu'n rhanbarthol a chenedlaethol.**
3. (3.2) Mae ymarferwyr yn fedrus, arloesol ac wedi ymrwymo i gefnogi plant a theuluoedd i gael y canlyniadau gorau.
   Mae hyn yn cael ei gydnabod yn gyson gan arweinwyr.
4. (3.3) Mae diwylliant iach ble mae her broffesiynol iach yn cael ei annog. Mae arweinwyr yn hyrwyddo cyfathrebu dwy ffordd a dull drws agored gyda'r gweithlu. Anogir ymarferwyr i fod yn arloesol a rhannu eu hargymhellion i wella gwasanaethau.
5. (4.24) Mae arferion diogelu yn rymus ac yn gyson gyda WSP. Mae mwyafrif y camau a phenderfyniadau dilynol yn cael eu dilyn yn brydon, yn cynnwys gwneud penderfyniadau mewn un diwrnod gwaith o dderbyn adroddiad am ddiogelwch plentyn, a chynnal trafodaethau strategol o fewn 24 awr o benderfynu bod angen un.
6. (4.36) Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn parhau i ddatblygu partneriaethau cryf yn lleol, yn rhanbarthol a chenedlaethol, a hynny'n strategol a gweithredol.

Mewn ymateb i'r adroddiad a gafodd ei gyhoeddi, rydym wedi paratoi cynllun gwaith yn amlinellu ein meysydd gwella, ac mae copi wedi ei rannu gyda'r adroddiad hwn. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r tasgau y mae angen i'r gwasanaeth fynd i'r afael â nhw. Mae'r gwaith hwn yn barhaus a bydd yn cael ei fonitro drwy ein Cynllun Cyflawni Gwasanaeth 2026-27, sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.

2. **Arolygiad Maethu**

Roeddem yn falch iawn gyda chanlyniadau'r arolygiad Maethu aeth rhagddo am wythnos:

a) **Nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi adnabod unrhyw feysydd i'w gwella.**
b) **Nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cyhoeddi unrhyw hysbysiadau camau blaenoriaeth.**

Mae derbyn adroddiad heb unrhyw feysydd gwella wedi eu hamlygu gan ein harolygwyr yn eithriadol, ac mae'n adlewyrchiad ar y ffordd llwyddiannus mae ein gwasanaethau'n cael eu rheoli, eu cefnogi a'u gweinyddu.

Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru ***"Mae'r gwasanaeth wedi ei sefydlu'n dda gan ymarferwyr medrus a chymwys. Mae gofalwyr maeth yn derbyn y gefnogaeth briodol ac mae asesiadau'n sicrhau eu haddasrwydd. Mae trefniadau ar gyfer recriwtio, goruchwyliaeth, adolygiadau blynyddol a datblygu yn effeithiol. Mae plant yn cael profi sefydlogrwydd sy'n rhan hanfodol o'u datblygiad, yn ogystal â derbyn addysg a gwasanaethau iechyd. Maent yn cael trafodaethau cyson ac mae sawl ffordd wahanol iddynt rannu eu barn.***"
***"Mae anghenion iechyd plant yn cael eu cefnogi'n dda. Mae hyfforddiant gwybodus am drawma wedi cryfhau cymorth drwy ddatblygu dealltwriaeth gofalwyr maeth o drawma a rhoi'r sgiliau iddynt ymateb i hyn yn sensitif. O ganlyniad, mae gofalwyr maeth yn defnyddio strategaethau adeiladol sy'n helpu plant i reoli eu hemosiynau, rheoli heriau, a mynegi eu hunain yn fwy priodol."***

Rydym yn falch iawn o'n holl staff sydd wedi cefnogi'r ddau arolygiad, yn ogystal â gwneud gwaith dydd i ddydd, ac rydym ar ben ein digon i gael dathlu canlyniadau cadarnhaol y ddau arolygiad fel tîm, gan gydnabod yr holl waith caled ac ymdrechion.

**7. Asesiad Effaith**

a. A oes asesiad effaith wedi ei gwblhau (ystyriaethau i gydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, yr iaith Gymraeg)?

☐Do
☒Na

Os na, eglurwch pam:

Ddim ei angen ar hyn o bryd - rydym wrthi'n cynllunio ein cynllun gwaith.

b. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

*Yn Adran 7 Llythyr Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru, cyfeirir at yr iaith Gymraeg.*
*"Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r iaith Gymraeg fel rhan o gynnig gweithredol yn ystod ei waith gydag awdurdodau lleol. Derbyniwyd y cynnig gweithredol ar yr achlysur hwn. Cynhaliwyd grwpiau ffocws a chyfweliadau yn y Gymraeg yn ystod y gwiriad sicrwydd."*
*Mae'r Llythyr hefyd ar gael yn Gymraeg.*

*Mae Adran 4.3 yn nodi: "Mae'r awdurdod lleol yn elwa o garfan gref o ymarferwyr Cymraeg. Mae hyn yn brawf fod gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg i fodloni anghenion ieithyddol plant a theuluoedd."*

c. Effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Gweler rhif 7.1 uchod. |

d. Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Gweler rhif 7.1 uchod. |

e. Effaith bosib ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Niwtral<br><br>Cwblhawyd yr arolygiad ei hun wyneb yn wyneb ac electronig yn unig - ni rannwyd unrhyw ddogfennau na ffeiliau ar bapur yn ystod yr arolygiad hwn, gan warchod ein ôl-troed carbon.<br><br>Aseswyd yr effaith fel isel iawn. |

## 8. Goblygiadau Ariannol

| |
|---|
| Gwnaeth ein harolygydd adnabod a chofnodi yn y llythyr yr heriau rydym yn eu hwynebu o ran bodloni'r galw oherwydd diffyg capasiti staff. Mae adran 3.6 yn nodi "*Fodd bynnag, mae pobl, ar brydiau,* ***yn wynebu oediadau o ran derbyn cymorth oherwydd diffyg capasiti ymhlith ymarferwyr a phartneriaid amlasiantaethol.***" Gwnaed gyfeiriadau tebyg yn Adran 3.7, 4.18 a 4.19 ***"Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r gweithlu i sicrhau ei fod yn bodloni galw presennol, a phosibl, ynghyd â chynnal cysondeb o ran bodloni ei gyfrifoldebau statudol."***<br><br>Ar ôl cael golwg manwl ar lwyth achosion Gwaith Cymdeithasol, pwysau gwaith a'r cynnydd mewn atgyfeiriadau, mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno i fuddsoddi mewn tair swydd Gwaith Cymdeithasol ychwanegol yn y strwythur Plant a Theuluoedd eleni, gydag 1 Gweithiwr Cymdeithasol ychwanegol ar gyfer 2026/27 pe byddai'r galw'n parhau i gynyddu. |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| 1. Mae copi o adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar gael yma: https://www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2026-03/260318-anglesey-childrens-services-assurance-letter-cy.pdf<br><br>2. Mae copi o Gynllun Gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru ar gael fel dogfen ar wahân.<br><br>3. Mae copi o adroddiad Maethu Arolygiaeth Gofal Cymru ar gael yma: https://digidol.arolygiaethgofal.cymru/cyfeiriadur/gwasanaeth/SIN-00000740 |

| |
|---|
| |

## 10. Awdur yr Adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Ysgrifennwyd yr adroddiad gan Emma Edwards, Rheolwr Busnes<br><br>Mae’r Llythyr Sicrwydd, Adroddiad Maethu a Chynllun Gwaith ar gael yn Adran 9 uchod. |

## Gwiriad Sicrwydd Gwasanaethau Plant Ynys Môn 2026 - Arolygiaeth Gofal Cymru

| Maes | Dylid ei wneud / Rhaid ei wneud | |
|---|---|---|
| **Pobl - Llais a Rheolaeth** | **4.3** Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion yn adlewyrchu a yw'r cynnig gweithredol i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei gynnig.<br><br>**4.5 Dylai'r** awdurdod lleol sicrhau bod cofnodoin yn adlewyrchu fod ymarferwyr wedi cael cyfleoedd i fyfyrfio ar eu hymarfer wrth oruchwylio.<br><br>**Meysydd Gwella:**<br><br>**4.8 Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod eiriolaeth ffurfiol yn cael ei chynnig yn weithredol, ei hailgynnig, a'i darparu mewn modd amserol (lle bo angen).<br><br>**4.9 Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau'n gyson bod lleisiau plant, gan gynnwys eu barn a'u dymuniadau, eu cyflwyniad, a'u dealltwriaeth o ddigwyddiadau, wedi'u nodi'n glir ym mhob cofnod perthnasol.<br><br>**4.10 Rhaid** i'r awdurdod lleol gryfhau ei gynnig o asesiad gofalwyr ffurfiol i sicrhau bod hawliau a llais pob gofalwr anffurfiol yn cael eu hyrwyddo'n llawn. | |
| **Atal** | **Meysydd Gwella:**<br><br>**4.18** Unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i dderbyn, **dylai'r** awdurdod lleol fwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion a wneir mewn perthynas â'r agenda ataliol er mwyn sicrhau digonolrwydd mewn gwasanaethau cymorth cynnar ac atal.<br><br>**4.19 Dylai'r** awdurdod lleol adolygu'r gweithlu i sicrhau ei fod yn bodloni galw presennol, a phosibl, ynghyd â chynnal cysondeb o ran bodloni ei gyfrifoldebau statudol." | |

| | | |
|---|---|---|
| | **4.20 Dylai'r** awdurdod lleol sicrhau bod cyfathrebu â phlant a theuluoedd yn gyson ac yn amserol.<br><br>**4.21 Dylai'r** awdurdod lleol sicrhau bod safonau cofnodi yn gyson a bod cofnodion yn cael eu huwchlwytho'n brydlon.<br><br>**4.22 Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei fframwaith sicrhau ansawdd, Sicrhau Ansawdd a Gwella Ymarfer, wedi'i wreiddio'n gadarn mewn ymarfer.<br><br>**4.23 Dylai'r** awdurdod lleol sicrhau bod canlyniadau'n gyson â CAMPUS i gefnogi gwerthusiad effeithiol o a yw cynnydd mewn canlyniadau plant a theuluoedd wedi'i gyflawni, a pha mor llwyddiannus yw hynny. | |
| **Llesiant** | **4.29 Dylai'r** awdurdod lleol sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn cael eu gweithredu'n gyson.<br><br>**4.30 Dylai'r** awdurdod lleol gadarnhau canlyniad adroddiadau a wneir i blant (os yw'n briodol) ac yn ysgrifenedig at riant/gofalwr plentyn.<br><br>**Meysydd Gwella:**<br><br>**4.32 Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob ymarferydd perthnasol, gan gynnwys ymarferwyr o asiantaethau eraill, yn cael eu gwahodd i fynychu trafodaethau strategaeth lle bo'n bosibl.<br><br>**4.33 Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod penderfyniadau a wneir, a bod camau a gymerir, yn gyson, yn amserol ac yn cyd-fynd â gweithdrefnau perthnasol.<br><br>**4.34** Er mwyn cefnogi diogelu plant amserol ymhellach, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried trefnu fforymau rheolaidd pellach gyda rhanddeiliaid. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **4.35 Rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion yn egluro'n rheolaidd pa gefnogaeth, gwybodaeth a chyngor a ddarperir, a gan bwy, i oedolion y bernir eu bod mewn swyddi ymddiriedaeth, ac sy'n destun pryderon/honiadau. | |
| **Partneriaethau ac Integreiddio** | **4.39** Unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i dderbyn, **dylai'r** awdurdod lleol fwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion a wneir.<br><br>**Meysydd Gwella:**<br><br>**4.40 Dylai'r** awdurdod lleol barhau â'i waith gyda BIPBC i wella canlyniadau ymhellach i blant a theuluoedd.<br><br>**4.41 Dylai'r** awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion i sicrhau amrywiaeth o lety addas yn ei ardal i ddiwallu anghenion y plant y mae'n gofalu amdanynt. | |
| | | |

03/2026

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 10 Mehefin, 2026 |
| **Pwnc:** | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Amherthnasol | Aelod portffolio ar gyfer |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Angharad Hughes | Rheolwr Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2026/27

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2026/27
**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Argymhelliad(ion):
Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. Cefndir**

1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
    - Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
    - Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
    - Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2026/27 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐Do
☒Naddo

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2026

| |
|---|
| Os naddo, eglurwch pam: Amherthnasol |

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried |

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Positif / Niwtral / Negyddol a sut<br>Amherthnasol |

## 8 Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 9 Atodiadau

| |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2026/27 |

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Elin Allsopp, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI

## Cyfnod: Mai 2026 i Ebrill 2027

## Fersiwn dyddiedig: 19/05/26

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma.
Cysylltwch â'r Tîm Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [sgriwtiniscrutiny@ynysmon.llyw.cymru]



## Mai 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Mai, 2026 (12/05/2026)** | **Mai, 2026 (12/05/2026)** |
| Ethol Cadeirydd: 2026/27 | Ethol Cadeirydd: 2026/27 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2026/27 | Ethol Is-gadeirydd: 2026/27 |

## Mehefin 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Mehefin, 2026 (10/06/2026) – Ch4** | **Mehefin, 2026 (09/06/2026) – Addysg / Iaith Gymraeg** |

| | |
|---|---|
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2025/26 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg: 2025/26<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25 |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2026/27 | Adroddiad ADY a Ch 2025/26-mesur cynnydd |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |



## Gorffennaf 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Dim cyfarfod wedi’i raglennu** | **Gorffennaf, 2026 (14/07/2026)** |
| | Cynllun Strategol Taclo Tlodi |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

## Medi 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Medi, 2026 (16/09/2026) – Ch1** | **Medi, 2026 (15/09/2026) -Cyfarfod Arbennig** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2026/27 | Adroddiad yn dilyn ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr<br>• Cynllun Strategol Rheoli Cyrchfan 2023-2028-mesur cynnydd |

| | |
|---|---|
| Strategaeth Tai Gwag 2023-2028-mesur cynnydd | Cronfa Lefelu i Fyny, Cronfa Twf Leol ac Adroddiad SPF |
| Cynllun Strategol Rheoli Asedau (Tai) 2024-2029-mesur cynnydd | Cynllun Strategol Rheolaeth yr AHNE 2023-2028-mesur cynnydd |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | |
| | **Medi, 2026 (28/09/2026)** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |



## Hydref 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Hydref, 2026 (14/10/2026)** | **Hydref, 2026 (13/10/2026)** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2025/26 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2025/26 |
| Adroddiad Cynydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2025/26 | **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

Tachwedd 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Tachwedd, 2026 (11/11/2026) - Ch2** | **Tachwedd, 2026 (10/11/2026) -Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2026/27 | Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd |
| Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2025/26 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Diogelu Corfforaethol | **Eitem er gwybodaeth:** Cynllun Strategol Rheoli Asedau-mesur cynnydd |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |



Ionawr 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Ionawr, 2027 (19/01/2027) – Cyllideb 2027/28 (bore)** | **Ionawr, 2027 (20/01/2027)** |
| 2027/28 Sefydlu Cyllideb (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad Blynyddol 2025/26<br>• Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | Cynllun Strategol Tuag a Sero Net 2026-2031- mesur cynnydd (Targedau Ynni Gwasanaethau Tai) |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

Chwefror 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Chwefror, 2027 (17/02/2027) –2027/28 Cyllideb** | **Chwefror, 2027 (16/02/2027)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2027/28 – refeniw a chyfalaf | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

Mawrth 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Mawrth, 2027 (10/03/2027) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (09/03/2027)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2026/27 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Strategaeth Grant Cymorth Tai 2027-2031 | Porthladd Rhydd Ynys Môn-mesur cynnydd |
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2025/26 | Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3 2026/27 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

Ebrill 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Dim cyfarfod wedi’i raglennu** | **Dim cyfarfod wedi’i raglennu** |

This page is intentionally left blank